




**Y Coleg
Merthyr Tudful**
The College
Merthyr Tydfil

2023-2024

Safon Uwch a Chyrsiau Addysg Bellach

Eich Coleg, Eich Dewis, Eich Dyfodol



**University of
South Wales**
Prifysgol
De Cymru

The College Merthyr Tydfil is
part of the University of South
Wales Group
Y Coleg Merthyr Tudful rhan
o Grŵp Prifysgol De Cymru

Cynnwys

- 3 Croeso
- 4 Pam Ein Dewis Ni?
- 5 Ein Dosbarth 2022 – Straeon Llwyddiant
- 6 Cymorth Dysgwyr a Bugeiliol Eithriadol
- 7 Parth Dysgu
- 9 Cyfleoedd Cymraeg a dwyieithog
- 10 Llwybrau'r Dyfodol – Cymorth Cyflogadwyedd a Menter
- 11 Cefnogi eich Dilyniant i'r Brifysgol
- 12 Bywyd Myfyriwr
- 13 Dysgu ac Addysgu
- 14 Mwy Galluog a Thalentog
- 15 Academi Chwaraeon
- 17 Dewis y Cwrs Cywir
- 18 Cymwysterau Sydd ar Gael
- 19 Prentisiaethau a Hyfforddeiaethau
- 20 Safon Uwch a Chyrsiau Galwedigaethol Lefel 3
- 21 Darpariaeth Safon Uwch ar Gyfer 2023/2024
- 22 Cyfrifyddiaeth
- 23 Busnes a Rheolaeth
- 24 Newydd ar Gyfer 2023
- 25 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant
- 26 Adeiladwaith
- 29 Diwydiannau Creadigol
- 31 Diwydiannau Digidol
- 33 Gosodwaith Trydanol
- 34 Peirianeg
- 36 ESOL
- 38 Dysgu Sylfaen
- 39 Trin Gwallt a Harddwch
- 40 Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- 41 Y Dyniaethau, Gwyddorau Cymdeithasol ac Ieithoedd
- 43 Technoleg Cerbydau Modur
- 44 Gwyddoniaeth a Mathemateg
- 46 Chwaraeon
- 47 Setup
- 48 Gwasanaethau Cyhoeddus ac Antur Awyr Agored
- 49 Teithio a Thwristiaeth
- 50 Mynediad i AU
- 51 Cyrsiau AU
- 54 Gwobr Peirianwyr y Dyfodol Ymddiriedolaeth Panasonic
- 55 Cyfrif Dysgu Personol (CDP)
- 56 Y Camau Nesaf

Blwyddyn Academaidd 2023/2024

Ymrestru ar gyfer Cyrsiau

Dydd Llun 21ain Awst – dydd Gwener 1af Medi 2023
Wythnos Sefydlu – Dydd Llun 4ydd Medi – Dydd Gwener 8fed Medi 2023

Digwyddiadau Agored

P'un a ydych yn gadael yr ysgol ac yn meddwl am eich camau nesaf, neu'n ddysgwr o oedolyn yn ceisio datblygu'ch sgiliau neu'ch cymwysterau ymhellach, mae ein nosweithiau agored yn gyfle perffaith i chi ddod i mewn a gweld ein cyfleusterau, cwrdd â'n staff a siarad â'r myfyrwyr presennol am eu profiadau o astudio gyda ni.

Dewch i'n gweld ni ar y dyddiadau a ganlyn:

Dydd Iau 27ain Hydref 2022
Dydd Mawrth 17eg Ionawr 2023
Dydd Mercher 8fed Mawrth 2023
Dydd Iau 27ain Ebrill 2023
Dydd Llun 22ain Mai 2023 – digwyddiad agored AU a rhan-amser penodol

Am fanylion am sesiynau gwybodaeth a gynhelir mewn ysgolion uwchradd lleol, ewch i: www.merthyr.ac.uk

Diwrnod canlyniadau Safon Uwch

Sesiwn Cyngor ac Arweiniad 'galw heibio' ddydd Iau 15fed Awst 2023 o 8:00am

Diwrnod canlyniadau TGAU

Sesiwn Cyngor ac Arweiniad 'galw heibio' ddydd Iau 24ain Awst 2023 o 8:00am

Cadwch mewn cysylltiad â ni!

Dilynwch ni ar Facebook, Twitter ac Instagram i gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr holl newyddion o'r coleg.
[/collegemerthyrtydfil](https://www.facebook.com/collegemerthyrtydfil)
[@CollegeMerthyr](https://twitter.com/CollegeMerthyr)



Defnyddiwch eich ffôn clyfar i sganio'r cod hwn a bydd yn mynd â chi at ein gwefan.

Mae Coleg Merthyr Tudful yn ymgorffori Deddf Cydraddoldeb 2010 ac mae'n cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus Gellir gweld ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar dudalennau gwe'r coleg.

Mae'r coleg wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y canllaw cyrsiau hwn mor gywir â phosibl ar adeg argraffu. Fe'i bwriedir fel canllaw cyffredinol i gyrsiau a chyfleusterau'r coleg ac nid yw'n ffurfio rhan o gontract. Mae'r coleg yn cadw'r hawl i wneud newidiadau neu dynnu'n ôl, heb rybudd, unrhyw rai o'r cyrsiau, cyfleusterau'r cyrsiau neu'r cymorth a ddisgrifir.

Croeso i Y Coleg Merthyr Tudful

P'un a ydych chi'n fyfyrwr yn gadael yr ysgol yn 2023, neu'n ddarpar ddysgwr addysg bellach neu uwch, rydym yn cynnig cyfle unigryw i astudio ar gampws modern a chyffrous sy'n cynnig dysgu o'r radd flaenaf i bawb, a hynny yng nghanol tref Merthyr Tudful.

Mae Y Coleg Merthyr Tudful yn cynnig rhywbeth i bawb, gydag ystod helaeth o gyrsiau amser llawn a rhan amser, yn cynnwys ystod eang o gyrsiau Safon UG ac Uwch, cyrsiau galwedigaethol a rhaglenni addysg bellach ac uwch – gyda phob un yn cael ei ddarparu gan dîm addysgu hynod gymwys ac ymroddedig.

Rydym yn cynnig profiad dysgu o'r radd flaenaf i bawb sy'n astudio yma. Bydd ein hymrwymiad i'ch profiad dysgu, ynghyd â'n cyfleusterau arobryn, ein dewisiadau cynhwysfawr o gyrsiau a'n cymorth rhagorol i fyfyrwyr yn sicrhau y gallwch chi gyrraedd eich llawn botensial a llwyddo i ennill y cymwysterau sydd eu hangen arnoch i symud ymlaen i addysg bellach neu uwch neu gyflogaeth.

Yn ogystal, mae ein partneriaeth â REDHOUSE (Hen Neuadd y Dref) yn galluogi dysgwyr sy'n dymuno astudio'r celfyddydau creadigol a pherfformio i astudio mewn canolfan diwydiannau creadigol arbenigol.

Rydym yn gobeithio y bydd y canllaw cyrsiau hwn yn rhoi rhywfaint o'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ar y cyrsiau sydd ar gael a bywyd yn gyffredinol yn y coleg.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu i astudio yn Y Coleg Merthyr Tudful yn 2023.

LISA THOMAS, Pennaeth y Coleg

Lisa Thomas



Lisa Thomas, College Principal



Pam Ein Dewis Ni?

Academi Safon Uwch sy'n Perfformio'n Ardderchog

- Yn cynnig ystod o gyrsiau Safon Uwch ar draws ystod eang o feysydd pwnc
- Cyfradd llwyddiant Safon Uwch yn 99% - yr uchaf o blith holl colegau addysg bellach Cymru

Canolfan ragoriaeth alwedigaethol

- Y coleg sy'n perfformio orau ar gyfer cyrsiau galwedigaethol
- Yn cynnig dros 60 o gymwysterau a llwybrau galwedigaethol gwahanol o fusnes i adeiladwaith, peirianeg, chwaraeon, gwallt a harddwch a llawer mwy
- Cyfradd llwyddiant o 100% ar draws llawer o feysydd galwedigaethol
- Ystod gynhwysfawr o gyfleoedd hyfforddeiaethau a phrentisiaethau

Dysgu ac addysgu o ansawdd uchel

- Gwersi arloesol ac ysbrydoledig.
- Ymrwymiad i hyfforddi pob aelod o staff ar y Rhaglen Athrawon Rhagorol OLEVI
- Coleg Arddangos Microsoft



Rhaglen Gyfoethogi Wych

- Academi Chwaraeon, yn cynnig pêl-rwyd, pêl-droed, rygbi, pêl-fasged, tennis bwrdd a golff
- Amrywiaeth eang o glybiau amser cinio ac ar ôl coleg mewn meysydd megis rhaglennu cyfrifiadurol, dadlau, dawns ac E-chwaraeon ac ati
- Cyfle i gymryd rhan mewn cystadlaethau sgiliau yng Nghymru ac yn genedlaethol

Cyfleusterau o'r radd flaenaf

- Cyfleusterau modern, o'r radd flaenaf
- Cyfleusterau Diwydiannol Creadigol Dynodedig yn Redhouse

- Campfa ac ystafell ffitrwydd o'r radd flaenaf, Ystafelloedd Golff newydd sbon gydag Efelychydd, ystafelloedd Gemau ac E-Chwaraeon arbennig

Ystod gyffrous o weithgareddau allgyrsiol yn cynnwys teithiau a lleoliadau addysgol yn Ewrop

- Ystod gyffrous o deithiau ac ymweliadau addysgol rhyngwladol ac Ewropeaidd e.e. trip blynyddol Busnes i Efrog Newydd a lleoliadau profiad gwaith

Cyfle i gymryd rhan mewn lleoliadau prifysgolion a gwaith pwysig


- Cysylltiadau ardderchog gyda Chanolfan 'Oxbridge' Seren i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ymgysylltu â phrifysgolion elitaidd
- Cydlynwyr UCAS dynodedig i helpu dysgwyr i ymgysylltu â mentrau megis rhaglen STEP Caergrawnt ac Ysgol Haf Prifysgol Rhydychen
- Tîm Llwybrau i'r Dyfodol penodedig i helpu dysgwyr i fod yn 'barod am gyflogaeth'

Amgylchedd cyfeillgar a chroesawgar

- Staff cyfeillgar, cefnogol a meithringar sy'n ymroddedig i ddarparu'r profiad gorau posibl i bob dysgwr

Gofal a chymorth bugeiliol eithriadol

- Tiwtoriaid personol a chwrs
- Tîm Hyfforddwyr Dysgu Dynodedig i gefnogi anghenion dysgu ychwanegol
- Tîm Cefnogi Lles ac Iechyd Meddwl ac Emosiynol a Llesiant Dysgwyr



Ein Dosbarth 2022 - Straeon Llwyddiant

Cyflawnodd ein dosbarth 2022 ganlyniadau eithriadol gyda chyfradd llwyddiant o 99% ar Safon Uwch a chyfradd llwyddiant o 100% ar draws llawer o feysydd galwedigaethol.



Ysgol Uwchradd Afon Taf

Dywedodd cyn-ddysgwr Ysgol Uwchradd Afon Taf, Demi Williams, dysgwr Lefel 2 sy'n mynd ymlaen i Lefel 3 Peintio ac Addurno, am ei chwrs "Roedd blwyddyn gyntaf fy nghwrs sylfaen yn cynnwys dwy grefft, gwaith saer a gwaith coed a pheintio ac addurno. Mae'r ail flwyddyn yn caniatáu ichi ddilyn y grefft o'ch dewis. Dewisais i Beintio ac Addurno Rwy'n mwynhau gweithio gyda lliwiau anhygoel a phapurau wal addurniadol; rwy'n ymlaen yn fawr at weld y canlyniad terfynol. Rwy'n mwynhau'r sesiynau theori ac ymarferol. Mae'r sesiynau ymarferol wedi'u cynllunio er mwyn teimlo'n realistig, mae hyn yn rhoi ymdeimlad o falchder mawr wrth edrych yn ôl ar y dasg orffenedig ac ni allaf aros i gynhyrchu'r canlyniadau hyn mewn cartrefi ledled y wlad. Roedd y sesiynau theori yn ddefnyddiol iawn i mi adeiladu fy ngwybodaeth a hyder gan fy ngalluogi i gyflawni'r tasgau hyd eithaf fy ngallu".

yn caniatáu ichi ddilyn y grefft o'ch dewis. Dewisais i Beintio ac Addurno Rwy'n mwynhau gweithio gyda lliwiau anhygoel a phapurau wal addurniadol; rwy'n ymlaen yn fawr at weld y canlyniad terfynol. Rwy'n mwynhau'r sesiynau theori ac ymarferol. Mae'r sesiynau ymarferol wedi'u cynllunio er mwyn teimlo'n realistig, mae hyn yn rhoi ymdeimlad o falchder mawr wrth edrych yn ôl ar y dasg orffenedig ac ni allaf aros i gynhyrchu'r canlyniadau hyn mewn cartrefi ledled y wlad. Roedd y sesiynau theori yn ddefnyddiol iawn i mi adeiladu fy ngwybodaeth a hyder gan fy ngalluogi i gyflawni'r tasgau hyd eithaf fy ngallu".

Blessed Carlos Acutis

Enillodd Menna Owen, cyn-ddisgybl yr Blessed Carlos Acutis, A* mewn Cymdeithaseg, A mewn Busnes ac A mewn Seicoleg, gan ei galluogi i symud ymlaen i astudio Rheolaeth Adnoddau Dynol ym Mhrifysgol Leeds. Wrth sôn am ei chanlyniadau, dywedodd Menna, "Fe wnes i wir fwynhau astudio Safon Uwch yn y coleg dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd y gefnogaeth a gefais yn anhygoel ac mae wedi fy mharatoi'n dda ar gyfer y brifysgol".



Ysgol Uwchradd Cyfarthfa

Enillodd Abbie Williams, cyn-ddisgybl Ysgol Uwchradd Cyfarthfa, A*A* A* A* rhagorol mewn Mathemateg, Bioleg, Cemeg a Seicoleg ac mae bellach wedi symud ymlaen i astudio Gwyddor Biofeddygol ym Mhrifysgol Manceinion.



Ysgol Uwchradd Pen Y Dre

Cyflawnodd cyn-ddisgybl Ysgol Uwchradd Pen Y Dre Ethan Scriven D*D*D yn ei gwrs BTEC Teithio a Thwristiaeth Lefel 3. Meddai Ethan, "Rwyf wedi fy synnu gan y gefnogaeth a gefais ers astudio yn y coleg. Gyda unrhyw bryderon neu faterion sydd gennyf, mae aelod o staff bob amser wrth law i gynnig cyngor. Fel myfyriwr Teithio a Thwristiaeth, mae'r staff wedi fy ysgogi i ddatblygu fy ngyrfa o fewn y diwydiant ac rwy'n gobeithio gweithio dramor ar ôl cwblhau fy nghwrs".

yn y coleg. Gyda unrhyw bryderon neu faterion sydd gennyf, mae aelod o staff bob amser wrth law i gynnig cyngor. Fel myfyriwr Teithio a Thwristiaeth, mae'r staff wedi fy ysgogi i ddatblygu fy ngyrfa o fewn y diwydiant ac rwy'n gobeithio gweithio dramor ar ôl cwblhau fy nghwrs".



Cymorth Dysgwyr a Bugeiliol Eithriadol

Rydym yn ymfalchïo yn ein dysgu a'n haddysgu o ansawdd uchel, ond dim ond rhan o'r darlun yw hwn.

Mae pob dysgwr yn bwysig i ni – mae pob un ohonoch yn unigryw. Yn ogystal â darparu ystod eang o gyrsiau, rydym hefyd yn darparu amgylchedd lle gall dysgwyr o bob gallu ac uchelgais lwyddo. Gallai hyn fod o ran y cymwysterau rydych chi'n eu hennill, y sgiliau newydd rydych chi'n eu caffael, neu'r gweithgareddau allgyrsiol neu entrepreneuriaidd y byddwch yn cymryd rhan ynddynt. Drwy gydol eich amser gyda ni, gallwch fod yn dawl eich meddwl y byddwn yn darparu'r gofal a'r cymorth yr ydych yn eu haeddu i bob un ohonoch. Rydym wedi ymrwymo i barchu diwylliant, dathlu amrywiaeth a hyrwyddo cymuned ddysgu ddiogel i bawb. Mae llawer o'n dysgwyr ac ymwelwyr yn aml yn dweud pa mor gyfeillgar, diogel a chroesawgar yw amgylchedd y coleg.



Y Tîm Derbyniadau

Mae eich taith yn y coleg, yn dechrau gyda'r broses Derbyniadau. Mae gennym dîm Derbyniadau ac Ymholiadau dynodedig a fydd yn eich cefnogi trwy'ch proses ymgeisio a chofrestru.

Byddwn yn rhoi cyngor, cefnogaeth ac arweiniad i chi i'ch helpu i ddewis y cwrs cywir a ni fydd eich pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw ymholiadau sydd gennych ynghylch llenwi eich ffurflen gais neu ddod i'ch cyfweiliad. Ar ôl i chi gael cynnig, byddwn yn helpu i sicrhau bod gennych yr holl

wybodaeth sydd ei hangen arnoch ar gludiant a chyllid i'ch helpu gyda chost eich astudiaethau, a hefyd yn helpu i sicrhau bod pontio i'r coleg mor ddidrafferth â phosibl i chi.

Canolfan Llesiant

Mae ein Canolfan Llesiant ddynodedig yn darparu system gymorth integredig ar gyfer dysgwyr, gyda chynghor, arweiniad a chymorth arbenigol yn canolbwyntio ar yr holl agweddau ar lesiant, yn cynnwys diogelwch, cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol, Ysbrydoli i Gyflawni (I2A), cymorth sgiliau astudio ynghyd â mewnbwn meddygol a therapiwtig gan Ymarferydd Nyrsio a Chwnselydd. Mae aelodau o'r tîm ar gael i fynychu adolygiadau pontio ysgol fel rhan o'r broses derbyniadau ar gyfer y coleg hefyd.

Cymorth Ariannol

Mae ein tîm Cyllid yma i roi cymorth, help ac arweiniad i chi ar bob agwedd ar gyllid a theithio i'r coleg. Mae gennym amrywiaeth o grantiau a bwrsariau i helpu gyda'ch costau astudio.

Ysgoloriaethau

Mae'r coleg yn cynnig ystod o ysgoloriaethau i ddysgwyr. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Shelby Berry ar s.berry@merthyr.ac.uk

Help gyda chostau cludiant

Os ydych yn 16, 17 neu 18 oed ar 1af Medi 2023 ac yn bwriadu astudio'n amser llawn efallai y byddwch yn gymwys am gludiant am ddim.

Parth Dysgu

Mae gan y coleg Barth Dysgu pwrpasol sy'n rhoi mynediad at ystod eang o wasanaethau, cyfleusterau a chymorth o ansawdd uchel i ddysgwyr ar bob lefel.



Mae'r adnoddau yn cynnwys:

- › Llyfrau print ac electronig a chyfnodolion
- › Canllawiau pwnc print ac electronig
- › Cyfleusterau TG, yn cynnwys Wifi am ddim
- › Lleoedd astudio wedi'u cynllunio ar gyfer astudio tawel, unigol, a gwaith grŵp
- › Catalog ar-lein mynediad cyhoeddus Findit i ddod o hyd i eitemau, eu cadw a gofyn amdanynt a rheoli benthyca personol
- › Mynediad i amrywiaeth o sesiynau addysg defnyddwyr wedi'u cynllunio i'ch cefnogi chi gyda'ch astudiaethau

Bydd gan ddysgwyr hefyd fynediad i adnoddau a ddelir yn llyfrgelloedd safleoedd eraill grŵp Prifysgol De Cymru, drwy'r system gais rhyng-safleoedd.

Gwybodaeth i Rieni/Gofalwyr

Bydd Y Coleg Merthyr Tudful yn brofiad dysgu newydd sbon ar gyfer eich mab a'ch merch ac rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn darparu cymaint o wybodaeth, cyngor ac arweiniad i'ch cefnogi chi a hwy i wneud y penderfyniad cywir am y cwrs(cysiau) y maen nhw am eu hastudio yn y coleg ac i sicrhau bod eu cyfnod pontio o'r ysgol i'r coleg mor esmwyth â phosibl.

Gweithio gyda chi i gefnogi cynnydd eich mab/merch yn y coleg

Fel ysgolion uwchradd, rydym yn falch o gynnwys rhieni/gofalwyr a byddwn yn gweithio gyda chi i sicrhau bod eich mab/merch yn cyflawni eu llawn botensial. Y rheswm dros hyn yw ein bod yn gwybod mai'r myfyrwyr sy'n perfformio orau yw'r rhai sy'n gwneud tri pheth:

- › Gweithio'n galed
- › Yn cael eu cefnogi a'u haddysgu gan athrawon ymroddedig o safon uchel
- › Yn cael eu cefnogi a'u hannog gan eu rhieni

Felly, byddwn yn sicrhau eich bod chi yn gwneud yr hyn a ganlyn:

- › Chwarae rhan lawn yn y bartneriaeth rhwng y coleg a'ch mab/merch
- › Cael cyfle i ddod i mewn ar ddechrau'r tymor i gwrdd â thiworiaid eich mab/merch
- › Cael gwybod ar unwaith am unrhyw achosion o ddiffyg presenoldeb
- › Derbyn gwybodaeth gynhwysfawr, gywir ac amserol gan y coleg trwy gydol eu dewis gwrs astudio, yn cynnwys cylchlythyrau'r coleg
- › Derbyn adroddiadau cynnydd ar eich mab/merch ddwywaith y flwyddyn
- › Dod i noson rieni/gofalwyr ddwywaith y flwyddyn i drafod perfformiad eich mab/merch

“Mae fy amser yn y coleg wedi bod yn llwyddiannus iawn. Dewisais Gosodiadau Trydanol i helpu i wella fy siawns o gael prentisiaeth yn y Diwydiant Trydanol...” **JAY DAVIES**
Cyn-ddisgybl Ysgol Uwchradd Cyfarthfa



Cyfleoedd Cymraeg a Dwyieithog

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i ddarparu ethos a diwylliant Cymraeg ar draws amgylchedd y coleg.

Mae'r Coleg yn cynnig llawer o gyfleoedd i fyfyrwyr sydd am ymarfer, gwella a defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle ac mewn amgylchedd dysgu.

Mae ein Hyrwyddwr Dwyieithog penodedig yma i helpu a chefnogi dysgwyr trwy:

- › Darparu cymorth sgiliau astudio pwnc-benodol
- › Darparu ystafell Gymraeg bwrpasol (ystafell Shwmaeronment) i bob dysgwr ar draws y coleg
- › Cynnig rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau cyfoethogi cyfrwng Cymraeg
- › Darparu rhestrau termau a geirfa dwyieithog
- › Ffug-gyfweliadau yn Gymraeg ac arweiniad i ysgrifennu CVs a llythyrau eglurhaol
- › Cyfle i gymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol Cymraeg
- › Edrychwch am ein digwyddiadau, gweithgareddau a chlybiau Cymraeg sy'n digwydd yn ystod y flwyddyn academaidd

Ysgoloriaethau'r iaith Gymraeg

Mae ein Hysgoloriaethau iaith Gymraeg ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio rhaglen Bagloriaeth Cymru yn y Coleg.

- › Bydd myfyrwyr yn cael y cyfle i gynhyrchu eu gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg
- › Mae'r ysgoloriaethau'n £100 yr un
- › I fod yn gymwys ar gyfer yr ysgoloriaethau, rhaid i fyfyrwyr wneud cais am gwrs amser llawn yn y coleg

Astudiaeth Achos DAISY WRIGGLESWORTH

“Fy enw i yw Daisy ac rwy'n fyfyrwr yn y coleg. Fel siaradwr Cymraeg, mae gen i gymaint o gyfleoedd i ddefnyddio fy Nghymraeg drwy ysgoloriaethau iaith Gymraeg, ymuno â thîm y Gymraeg a dod yn llysgennad y Gymraeg. Mae'r cyfleoedd hyn yn rhoi cyfle i mi ddatblygu fy sgiliau a defnyddio'r Gymraeg yn hyderus!”

Ysgoloriaethau Llysgenhadon Cymraeg

Mae'r coleg yn chwilio am llysgenhadon Cymraeg i rannu eich profiad fel myfyrwr a hyrwyddo'r Gymraeg drwy'r coleg ac mewn digwyddiadau cyhoeddus. Bydd defnyddio'r iaith yn eich helpu i ennill sgiliau amhrisiadwy y byddant o fantais i chi nawr ac yn y dyfodol, megis:

- › Gwella'ch gwybodaeth bersonol a gwella'ch sgiliau, yn enwedig mewn marchnata, cyfathrebu, trefnu, cynllunio, arwain a gwaith tîm
- › Ennill profiad a rhoi hwb i'ch hyder
- › Cwrdd â ffrindiau newydd
- › Ychwanegu at eich CV a gwella'ch rhagolygon cyflogaeth



Astudiaeth Achos MORGAN EVANS

“Ers gadael yr ysgol, doedd gen i ddim hyder i ddefnyddio'r Gymraeg ond fe wnaeth tîm y Gymraeg fy nghefnogi i ddatblygu fy hyder i ddefnyddio'r Gymraeg.

Rwyf bellach wedi dod yn llysgennad y Gymraeg, yn cynrychioli'r coleg ym mhob digwyddiad drwy gydol y flwyddyn ac yn helpu yn y clwb Cymraeg. “Rwyf wedi mwynhau cyfleoedd iaith Gymraeg y coleg yn fawr ac maent wedi fy ngalluogi i barhau â'm cysylltiadau â'r iaith a'i defnyddio'n hyderus. Mae bod yn rhan o dîm y Gymraeg wedi gwneud i mi sylweddoli pwysigrwydd cael y sgil ychwanegol yna, ac rwy'n mwynhau pwysleisio pwysigrwydd y Gymraeg i ddysgwyr a staff”.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Lynwen Harrington ar 0168572600 est 6331 neu e-bostiwrch l.harrington@merthyr.ac.uk

Llwybrau'r Dyfodol – cymorth cyflogadwyedd a menter

Llwybrau'r Dyfodol yw ein tîm Cyflogadwyedd a Menter ymroddedig sy'n cynnig cyngor cyflogadwyedd, menter, gyrfa a dilyniant pwrpasol.

Rydym yn cynnal amrywiaeth o weithdai i ddysgwyr, sesiynau galw heibio, nosweithiau agored, gwirfoddoli a digwyddiadau gyrfa drwy gydol y flwyddyn.

Dilynwch ein tudalen Twitter bwrpasol @pathwaysfuture i gael diweddariadau rheolaidd ar swyddi gwag, cyngor gyrfa, digwyddiadau, sesiynau byw, siaradwyr gwadd a chyfleoedd cyflogadwyedd ledled Cymru a'r DU.

Galwch heibio i Ganolfan Llwybrau'r Dyfodol am gymorth gyda:

- › Datblygu CV
- › Llythyrau eglurhaol
- › Ceisiadau am swyddi
- › Sgiliau cyfweiliad
- › Sgiliau cyflwyno
- › Cyngor ar yrfaeodd
- › Lleoliadau gwaith
- › Dechrau eich busnes eich hun
- › Cymraeg yn y Gweithle

Gofynnwch i ni am:

- › Gwersylloedd hyfforddi (Syniadau Mawr Cymru)
- › Sesiynau Model Rôl
- › Cyfleoedd gwirfoddoli
- › Lleoliadau gwaith
- › Prentisiaethau a hyfforddiant

Dewch draw i gwrdd ag ystod eang o gyflogwyr, elusennau gwirfoddoli, prifysgolion, mentoriaid gyrfa a chynghorwyr busnes! Rydym yn gweithio'n agos gyda nifer fawr o gyflogwyr lleol a chenedlaethol ac yn cydweithio'n agos â'r Ganolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru i gael y wybodaeth ddiweddaraf am swyddi gwag a gofynion hyfforddi.

Ein nod yw sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cyngor a'r arweiniad gorau posibl, gan dderbyn diweddariadau rheolaidd ar ddilyniant a chyfleoedd cyflogadwyedd presennol.

Gall ein tîm Gwasanaethau Myfyrwyr hefyd roi cyngor ar gyllid a chyfeirio at y cyrsiau mwyaf priodol.

I gloi, rydym yn darparu 'siop un stop' ar gyfer Cyflogadwyedd, Menter a Dilyniant yn y coleg; gan ddefnyddio profiad y dysgwr i sicrhau bod y daith ddysgu yn bleserus ac yn werth chweil.

Cysylltwch â'n Pennaeth Cyflogadwyedd a Menter, Christine Bissex am ragor o wybodaeth ar: 01685 726175 neu e-bostiwrch: c.bissex@merthyr.ac.uk

Gweithio mewn partneriaeth â:

- | | |
|--|---|
| › JNP Legal | › Tenneco |
| › Trafnidiaeth Cymru | › Future Valleys Construction |
| › Morgan Sindall Construction | › Active Merthyr |
| › Tilbury Douglas | › Golf Wales |
| › Panasonic | › Cyber Cymru Wales |
| › Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | › Cynllun Cadetiaid Nyrsio'r RCN |
| › Philtronics Limited | › Rhaglen Interniaeth â Chymorth Ysbyty'r Tywysog Siarl |

Cefnogi eich Dilyniant i'r Brifysgol

Os ydych chi'n dymuno symud ymlaen i'r brifysgol, rydym yn darparu rhaglen gymorth wedi'i theilwra i'ch helpu chi ar hyd y ffordd. Mae hyn yn cynnwys:

- › Cydlynwyr UCAS dynodedig y coleg i'ch arwain bob cam trwy'r broses UCAS
- › Help a chymorth i ddatblygu'ch datganiadau personol (yn cynnwys sesiynau sy'n cael eu cynnal gan brifysgolion blaenllaw)
- › Rhaglen cymorth cyfweiliad, gan gynnwys cyfweiliadau ffug gyda phaneli o staff y coleg, cynghorwyr prifysgol a chynrychiolwyr o ddiwydiant
- › Amrediad cynhwysfawr o weithgareddau menter i'ch helpu i ddatblygu ystod o sgiliau trosglwyddadwy, meithrin eich hyder a chael profiad o sefyllfaoedd busnes go iawn
- › Digwyddiad Llwybrau Gyrfaol Blyneddol y Coleg i'ch galluogi i siarad â chyflogwyr a phrifysgolion am opsiynau gyrfa ac addysg uwch

Mae'r rhaglen yn cynnwys:

- › Cyrsiau lefel Prifysgol
- › Siaradwyr ysgogol
- › Cynadleddau addysg uwch wedi'u trefnu gan brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt
- › Cymorth i fyfyrwyr gydag arholiadau mynediad prifysgol
- › Sgyrsiau ysgogol gan westeion gwadd a chyn-fyfyrwyr y coleg
- › Mynediad i'r Clwb Gwych
- › Cymorth unigol i fyfyrwyr gydag arholiadau mynediad prifysgolion gan diwtoriaid profiadol

Canolfan Oxbridge – Seren

Bydd myfyrwyr sy'n ennill chwe neu fwy o raddau A* ar Lefel TGAU yn gallu cymryd rhan yng Nghanolfan Seren Merthyr Tudful/Rhondda Cynon Taf.

Cefnogi dysgwyr mwy galluog a thalentog

Mae'r coleg wedi ymrwymo i gefnogi ei fyfyrwyr uchelgeisiol. Mae gennym raglen ddigwyddiadau unigryw a phenodol o weithgareddau a digwyddiadau, a fydd yn eich galluogi i sefyll allan ymhlith myfyrwyr galluog eraill ar draws y wlad.

THE
SEREN
NETWORK





Bywyd Myfyriwr

Gall eich amser yn y coleg fod yn brofiad pleserus a gwerth chweil. Mae pa mor bleserus a gwerth chweil ydyw yn dibynnu arnoch chi! Mae rhaglen Cyfoethogi ein coleg yn darparu ystod wych o weithgareddau a rhaglenni i chi eu mwynhau, o ioga, sesiynau campfa a ffitrwydd, golff, pêl-fasged, pêl-droed, E-Chwaraeon, clwb Cymraeg, dadlau, clwb gwyddbwyll, clwb gemau bwrdd, teithiau ac ymweliadau addysgol a llawer mwy!

Astudiaeth achos

CERITH DENNIS

Bu aelod o'n tîm E-Chwaraeon Tydfil Tytans yn llwyddiannus wrth ennill medal efydd yn yr eFootball Open ym Mhencampwriaethau E-Chwaraeon y Gymanwlad



Beth am ystyried gwneud cais am un o'n Hysgoloriaethau Llysgenhadon Dysgwyr?

Mae hon yn rôl gyffrous sy'n cynnig cyfle i chi wirfoddoli yn ystod Nosweithiau Agored, Nosweithiau Rhieni, Diwrnodau Blasau a digwyddiadau marchnata yn eich ysgolion blaenorol. Gallai hyn gynnwys cyfarfod a chyfarfod darpar ddysgwyr a'u rhieni/gofalwyr, gan ddarparu teithiau o gwmpas yr adeilad a chyfleusterau'r coleg, sgwrsio â darpar ddysgwyr am eich profiad yn y coleg, neu helpu eich tiwtoriaid cwrs yn ystod digwyddiadau allweddol y coleg. Bydd y profiad hwn yn edrych yn wych ar eich CV neu ffurflen gais UCAS. Bydd bod yn llysgennad yn eich galluogi chi i rannu'ch profiad a chael sgiliau amhrisiadwy y byddant o fantais i chi nawr ac yn y dyfodol.

Senedd y Dysgwyr

Mae Senedd y Dysgwyr yn darparu fforwm lle gall dysgwyr ddod i ddweud eu dweud ar ddatblygiad y coleg, eich dysgu a'ch llesiant. Cynhelir cyfarfodydd yn fisol. Bydd cynrychiolwyr yn cael eu hethol ym mis Medi bob blwyddyn. Mae bod yn gynrychiolydd Senedd y Dysgwyr yn rôl bwysig iawn gan ei bod yn eich galluogi i:

- Rhoi eich barn ar bob agwedd ar fywyd coleg. Cynrychioli barn eich cyd-ddysgwyr a ffrindiau dosbarth. Cymryd rhan mewn datblygu argymhellion a chmau gweithredu ar gyfer gwella agweddau ar fywyd yn y coleg
- Helpu i wella eich sgiliau cyfathrebu, gweithio mewn tîm a threfnu

Os oes gennych ddiddordeb mewn dod yn rhan o Senedd y Dysgwyr, cysylltwch â: **Andrew Jones yn Derbyniadau Myfyrwyr trwy e-bost ar a.jones2@merthyr.ac.uk**



Dysgu ac Addysgu

'Mae Coleg Merthyr yn cofleidio diwylliant ac ethos OLEVI... Dangoswyd yn glir effaith eich gwaith a phroffesiynoldeb a brwdfrydedd y cynrychiolwyr presennol i effeithio ar ddysgu eu myfyrwyr a'u cydweithwyr'. (Adolygiad Ansawdd OLEVI)

Mae darparu profiad rhagorol i ddysgwyr yn flaenoriaeth strategol i'r coleg ac mae Dysgu ac Addysgu yn hanfodol i gyflawni hyn. Mae'r coleg yn dymuno datblygu diwylliant tîm o ymholi ac arloesi, gan gydweithio i greu dulliau effeithiol ac arloesol o ddysgu ac addysgu. Mae ein strategaeth Dysgu ac Addysgu i'w gweld isod.


Mae'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu yn defnyddio ac yn ymgorffori egwyddorion OLEVI fel ffordd o godi safonau, gyda gwelliannau mewn Addysgu a Dysgu yn arwain at welliannau mewn canlyniadau i ddysgwyr. Yn seiliedig ar fodel TLC (Dysgu ac Addysgu, Arweinyddiaeth a Hyfforddi) nod y strategaeth yw;

- Meithrin ymarferwyr eithriadol
- Grymuso ymarferwyr i wella arweinyddiaeth dysgu ac addysgu
- Cynnwys staff mewn ethos hyfforddi cydweithredol
- Datblygu dull 'drws agored' o rannu arfer gorau
- Darparu addysgu o ansawdd i ddysgwyr mewn amgylcheddau dysgu rhagorol
- Gwella gwybodaeth a sgiliau dysgwyr sy'n hanfodol ar gyfer dilyniant neu gyflogaeth
- Meithrin diwylliant o ragoriaeth ac arloesedd

Conglfaen y Strategaeth Dysgu ac Addysgu yw model DRICE. Trwy ddefnyddio DRICE, dylai athrawon ganolbwyntio ar gynllunio a hwyuso sesiynau sy'n cael eu harwain gan ddysgwyr ac sy'n cyflawni'r canlynol;

- Dyfnhau Meddwl a Dysgu
- Modelu rôl y broses ddysgu
- Effeithio ar ddysgu a chynnydd
- Herio disgwyliadau
- Yn ennyn diddordeb dysgwyr yn eu dysgu eu hunain

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am ein dull at Ddysgu ac Addysgu, cysylltwch â Chris Ford (Cyfarwyddwr Dysgu) ar c.ford@merthyr.ac.uk



Mwy Galluog a Thalentog

Yn Y Coleg Merthyr Tudful credwn mewn creu cymuned ddysgu gynhwysol sy'n dathlu unigrywiaeth pob dysgwr. Bydd y Coleg yn hyrwyddo profiadau ysgogol a heriol trwy gwrwnglwm eang a chytbwys sydd hefyd yn cynnig gweithgareddau dysgu o safon sy'n canolbwyntio ar anghenion a thalentau penodol y dysgwyr. Ateir hyn gan raglen diwtorial a chyfoethogi bwrpasol sy'n cynnig cyfle i ddysgwyr Mwy Abl ymwneud ag ystod o sgysiau, gweithdai a chystadlaethau sy'n ymestyn eu dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Rydym hefyd wedi ymrwymo i nodi a diwallu anghenion y dysgwyr hyn cyn gynted â phosibl er mwyn eu galluogi i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl.

Fel aelod o NACE (Cymdeithas Genedlaethol Plant Galluog mewn Addysg) rydym yn ymdrechu i ddarparu'r profiad dysgwr gorau posibl ar gyfer ein dysgwyr Mwy Galluog ac ar hyn o bryd yn gweithio gydag ystod o bartneriaid i wella ein darpariaeth mewn cyd-destun cyffredinol a phwnc-benodol. Mae'r partneriaethau hyn yn cynnwys;

- ▶ Rhwydwaith SEREN
- ▶ The Brilliant Club
- ▶ The Scholars Programme
- ▶ Dr Lesley Taylor (Stanford Ph.D.)
- ▶ Cystadlaethau Sgiliau Cymru
- ▶ Hyfforddi Ieuencid Cymru
- ▶ Talk the Talk
- ▶ Positively You
- ▶ Microsoft
- ▶ Cyber College Cymru



- ▶ National Theatre Connections
- ▶ Institute of the Arts Barcelona
- ▶ Association of Hairdressers and Therapists
- ▶ Rhaglen Cadetiaid y Coleg Nyrsio Brenhinol
- ▶ Fformiwla Un yn Ysgolion y DU
- ▶ Urdd y Bricwyr
- ▶ Tennis Bwrdd Cymru
- ▶ Academi Golff TCMT
- ▶ Syniadau Mawr Cymru

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am ein darpariaeth ar gyfer dysgwyr Mwy Galluog a Thalentog yna cysylltwch â Chris Ford (Cyfarwyddwr Dysgu) ar c.ford@merthyr.ac.uk



Academi Chwaraeon

Mae gan y coleg academi chwaraeon bwrpasol sy'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn hyfforddiant lefel academi a thimau pêl-droed, pêl-rwyd, rygbi, golff, pêl-fasged a thennis bwrdd, ochr yn ochr â'u hastudiaethau. Mae sesiynau hyfforddi, ffitrwydd a chryfder a chyflyru wythnosol ar gael i bob dysgwr yn ein hacademïau, gyda chyfleoedd i gymryd rhan mewn gemau cynghrair, cwpan a chyfeillgar. Yn ogystal, bydd llawer o ddysgwyr o fewn ein hacademïau chwaraeon hefyd yn cael y cyfle i fynychu treialon dethol i gynrychioli Colegau Cymru a thimau cenedlaethol.

Astudiaethau achos

JOSH JONES

Ymunodd Josh Jones, cyn-ddisgybl Cyfarthfa â'n academi bêl-droed, gan ei alluogi i hyfforddi a chwarae pêl-droed ochr yn ochr â'i gwrs Peirianeg llawn amser.

Fel rhan o'n academi, cafodd Josh gyfle i fynychu treialon dethol i gynrychioli Colegau Cymru a thimau cenedlaethol. Ymhellach i'r treialon hyn, llwyddodd i ennill lle ar garfan Pêl-droed Colegau Cymru a hefyd sgwad Dan 19 Clwb Bechgyn Cymru. Yn y llun gyda Josh isod mae cyn ddysgwyr y coleg a disgyblion Cyfarthfa Jac Hughes, Dylan Dinham, Mackenzie Thomas a Reagan Evans, a oedd hefyd yn llwyddiannus wrth ennill lle yng nghanfan dan 19 oed Clwb Bechgyn Cymru.



ELIN TYNAN

Ymunodd cyn-ddisgybl Ysgol Gyfun Y Pant, Elin Tynan, â'r coleg fel dysgwr Safon Uwch ym mis Medi 2022. Ochr yn ochr â'i hastudiaethau Safon Uwch, mae Elin yn cymryd rhan yn ein academi golff, gan roi'r cyfle iddi dderbyn hyfforddiant gan y golffiwr proffesiynol a'r hyfforddwr elit, Neil Matthews. Trwy fod yn rhan o'n Hacademi, mae Elin wedi cael y cyfle i gynrychioli Cymru.




Dilynwch ein Hacademi Chwaraeon ar Twitter @MsportsacademyC





“Ro’n i’n teimlo bod yr holl gyfnod pontio yn llyfn iawn a’r coleg yn groesawgar iawn o’r diwrnod cyntaf. Roedd y tiwtoriaid yn ardderchog a chefnogon nhw imi gyrraedd y graddau roeddwn i’n dyheu am eu cyflawni.”

Joshua Flynn



Dewis y Cwrs Cywir



Rydym yn cynnig ystod eang o gymwysterau o Lefel Mynediad hyd at Lefel 6 sy'n cwmpasu sbectrwm eang o bynciau, felly beth bynnag yw'ch uchelgais yn y dyfodol, mae gennym ni gwrs addas i chi.

Rydym yn rhoi pwyslais mawr ar sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei roi ar y cwrs gorau ar ei gyfer, gan ystyried ei sgiliau a'i gymwysterau hyd yma, ei ddyheadau a'i lwybr gyrfu arfaethedig.

Mae gofynion mynediad y coleg yn darparu canllaw meincnod ar gyfer y broses hon, fel bod dysgwyr yn ymwybodol o lefel y cymwysterau, y sgiliau a'r wybodaeth y mae arnynt eu hangen i astudio ar y cwrs, gan helpu i sicrhau bod pob dysgwr ar gwrs a fydd yn ei helpu i gyflawni ei lawn botensial.

Gall y pynciau rydych chi'n dewis eu hastudio ddibynnu ar:

- Y cymwysterau rydych chi eisoes wedi'u hennill neu eich graddau arholiadau TGAU sydd ar ddod
- Y pynciau rydych chi'n eu mwynhau
- Y pynciau y mae angen i chi eu hastudio er mwyn symud ymlaen i'ch dewis gwrs addysg uwch neu yrfa

Egluro Cymwysterau

LEFEL E LEFEL 1

- Mae cymwysterau mynediad a Lefel 1 yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddatblygu ystod o sgiliau gyda digon o gefnogaeth unigol. Nid oes angen cymwysterau ffurfiol i astudio ar gyrsgiau ar y lefel hon
- Mae'r cymwysterau sydd ar gael yn cynnwys tystysgrifau Lefel Mynediad BTEC, BTEC Lefel 1, CBC Sylfaen Ôl-16

LEFEL 2

- Tystysgrif BTEC Lefel 2
- VRQ Lefel 2
- TGAU Mathemateg a Saesneg
- Prentisiaethau
- CBC Sylfaen Ôl-16

LEFEL 3

- UG ac U2
- Diploma UAL a Diploma Estynedig
- Diploma, Diploma Sylfaen Cenedlaethol a Diploma Estynedig BTEC
- Bagloriaeth Cymru Uwch

LEFEL 4

- Gradd Sylfaen Blwyddyn 1

LEFEL 5

- Gradd Sylfaen Blwyddyn 2

LEFEL 6

- Gradd BA Anrh Blwyddyn 3



Cymwysterau ar Gynnig

Rhaglenni Sgiliau

Mae'r coleg yn cynnig ystod o raglenni sgiliau i gefnogi dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd, rhifedd, digidol, meddwl yn feirniadol, cynllunio ac effeithiolrwydd personol yn gyffredinol. Cynigir y sgiliau hyn ar draws ystod o raglenni Sgiliau Hanfodol Cymru ac Agored ac maent yn cynnwys:

- › Sgiliau Llythrennedd
- › Sgiliau Rhifedd
- › Saesneg a Mathemateg cyn TGAU
- › Saesneg a Mathemateg TGAU

Safon UG a Safon Uwch

Mae'r rhain yn gymwysterau mynediad cydnabyddedig ar gyfer cyrsiau prifysgol. Mae Safon Uwch yn cynnwys unedau UG ac U2. Yn eich blwyddyn gyntaf, fel arfer, gallwch ddewis astudio hyd at bedwar pwnc ar Lefel UG. Ar ddiwedd eich blwyddyn gyntaf, byddwch chi'n sefyll arholiad Lefel UG ac yn ennill cymhwyster cydnabyddedig.

Gallwch barhau am ail flwyddyn a chael y Safon Uwch lawn.

Mae'n ofynnol i bob myfyriwr amser llawn sy'n astudio rhaglenni Safon Uwch astudio 3 phwnc Safon Uwch yn ogystal â Bagloriaeth Cymru. Rydym yn cynnig y cyfle i ddysgwyr sy'n cyflawni 7 gradd A neu uwch yn eu TGAU astudio 4 pwnc Safon Uwch yn lle astudio Bagloriaeth Cymru.

Galwedigaethol (ee BTEC, UAL, City and Guilds, CBAC)

Mae cymwysterau galwedigaethol Lefel 3 yn gymwysterau mynediad cydnabyddedig ac yn llwybr gwyh i'r brifysgol. Mae cymwysterau galwedigaethol ar gael mewn ystod eang o bynciau. Fe'u dyluniwyd mewn cydweithrediad â diwydiant, felly maent yn rhoi i chi y sgiliau a'r wybodaeth y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt. Mae'r cymwysterau yn cynnig cymysgedd o theori ac ymarfer, ac fel arfer maent yn cynnwys elfen o brofiad gwaith. Maent ar gael ar Lefelau 1, 2 a 3.

Galwedigaethol neu Safon Uwch? Beth yw'r gwahaniaeth?

Mae cymwysterau Safon Uwch a Lefel 3 ill dau yn gymwysterau mynediad cydnabyddedig ar gyfer cyrsiau prifysgol.

NVQ (Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol)

Mae NVQs yn gymwysterau sy'n gysylltiedig â gwaith sydd fel arfer yn cael eu cyflwyno a'u hasesu yn y gweithle. Gall y rhain fod yn rhan o Brentisiaeth. Bydd asesydd cymwys yn eich arsylwi ac yn eich asesu ar y gwaith yr ydych yn ei wneud yn y gweithle. Byddant yn profi eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth yn ogystal â'ch perfformiad.

'Sgiliau ar Gyfer Astudio Pellach' a 'Mynediad i Addysg Uwch'

Rydym yn cynnig cyrsiau Sgiliau ar gyfer Astudio Pellach Lefel 2 a Mynediad i Addysg Uwch Lefel 3.

Rydym yn cynnig cyfle i ail-sefyll TGAU mewn Saesneg a Mathemateg a fydd yn gyfle i chi wella ar y graddau a gawsoch tra roeddech yn yr ysgol.

Bagloriaeth Cymru

Mae'r coleg yn cynnig Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) ar dair safon ar draws ystod o feysydd galwedigaethol ac academiaidd;

- › Lefel 3 Uwch/BTEC CBC Uwch
- › BTEC Lefel 2/Galwedigaethol CBC Cenedlaethol Ôl-16
- › BTEC Lefel 1/Galwedigaethol CBC Sylfaen Ôl-16

Prentisiaethau a Hyfforddeiaethau

Ddim yn siŵr a yw dysgu'n amser llawn at eich dant? Mae'n rhaglenni prentisiaethau a hyfforddeiaethau yn gyfle perffaith i chi ennill cymwysterau a sgiliau tra'n gweithio (Prentisiaethau) neu'n gwneud profiad gwaith (Hyfforddeiaethau).

Sut mae'n gweithio?

Ar gyfer Hyfforddeiaethau a Phrentisiaethau, byddwch yn treulio pedwar diwrnod yr wythnos mewn lleoliad gwaith neu gyflogaeth ac un diwrnod yn y coleg.

Hyfforddeiaethau

- › Lwfans heb fod yn seiliedig ar brawf modd hyd at £50, yn dibynnu ar ba linyn o'r rhaglen rydych chi'n ei ddilyn
- › Datblygu Sgiliau Cyflogadwyedd
- › Amrywiaeth eang o hyfforddeiaethau ar gael gyda lleoliadau gwaith lleol
- › Mae'r dilyniant yn cynnwys cyflogaeth, prentisiaethau neu addysg bellach

Sut fyddaf yn elwa ohoni?

- › Ennill lwfans
- › Cael gwyliau â thâl
- › Derbyn hyfforddiant swydd-benodol
- › Ennill cymwysterau

Prentisiaethau:

- › Cyfleoedd cyffrous i astudio cymwysterau o Lefel 2 i Lefel 5
- › Statws cyflogedig er mwyn i chi ennill cyflog tra'n ennill cymwysterau swydd-benodol
- › Mynychu'r coleg neu Ganolfan Hyfforddi unwaith yr wythnos

Ar hyn o bryd rydym yn cynnig prentisiaethau mewn:

- › Rheoli ac Arwain Tîm
- › Gweinyddu Busnes
- › Manwerthu a Gwasanaeth Cwsmeriaid

- › Crefftau Adeiladwaith
- › Peirianeg
- › Mecaneg
- › Gwaith Warws a Storio
- › Lletygarwch (Bwyd a Diod)
- › Rhaglen Prentisiaethau a Rennir a gynigir ym Merthyr Tudful ar gyfer prentisiaethau STEM trwy Aspire.

Astudiaethau Achos

SHAUN ABBOTT

Dechreuodd Shaun, cyn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Aberpennar, yn y coleg fel dysgwyr Skillbuild gyda'r nod galwedigaethol o ddod yn fecanig cymwysedig. Gweithiodd Shaun yn galed iawn i gwblhau Lefel 1 gan ei alluogi i symud ymlaen yn llwyddiannus i Lefel 2 ac yna i Lefel 3.

Mae Shaun yn brawf y gallwch gyflawni eich nodau, gyda gwaith caled ac ymroddiad.

COREY WILLIAMS

Cynrychiolodd y myfyriwr dysgu seiliedig ar waith Corey Williams Y Coleg Merthyr Tudful yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd.

Cwblhaodd Corey gwrs Cymraeg chwe wythnos yn y coleg yn cwmpasu sgiliau derbynfa, a hynny dros y ffôn ac fel derbynnydd cwrdd a chyfarch.

Eisiau gwybod rhagor?

Cysylltwch â'n tîm o gynghorwyr yn uniongyrchol
Ffôn: 01685 371747 neu e-bostiwr: susan.type@tydfil.com

Safon Uwch a chysiau galwedigaethol Lefel 3

Gellir defnyddio Safon Uwch a chysiau galwedigaethol Lefel 3 i fynd i gyrsiau addysg uwch. Mae mynediad i'r cyrsiau hyn yn cael ei ddynodi gan dariff UCAS. Mae'r tabl gyferbyn yn dangos tariff pwyntiau UCAS ar gyfer Safon Uwch a BTEC:

Sut i symud ymlaen i Addysg Uwch

Mae'r Gwasanaeth Derbyniadau Prifysgolion a Cholegau (UCAS) yn defnyddio system bwyntiau i osod gwerth ar gyfer ystod o gymwysterau. I ddarganfod y gofynion mynediad ar gyfer y radd y mae gennych ddiddordeb ynddi ewch i: www.ucas.com

Prifysgol De Cymru

Mae partneriaeth y coleg â Phrifysgol De Cymru yn ein galluogi i ddarparu llwybrau cynnydd gwell i addysg uwch, gan gynnig ystod eang o gyrsiau lefel prifysgol yma yn Y Coleg Merthyr Tudful. Gyda mwy na 200 o fyfyrwyr wedi'u cofrestru ar gymwysterau lefel prifysgol, mae'r coleg yn darparu addysgu a chymorth o ansawdd uchel gan sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei lawn botensial ac yn llwyddo i ennill y cymwysterau sy'n ofynnol i fynd ymlaen i raglenni gradd anrhydedd, cymwysterau proffesiynol neu gyflogaeth.

Tarif Points	AS	A Level	BTEC Sub Diploma	BTEC 90 Credit	BTEC Diploma	BTEC Extended Diploma	UAL Extended Diploma	UAL Diploma
168	>>	>>	>>	>>	>>	D*D*D*	D	
160	>>	>>	>>	>>	>>	D*D*D		
152	>>	>>	>>	>>	>>	D*DD		
144	>>	>>	>>	>>	>>	DDD	HM	
128	>>	>>	>>	>>	>>	DDM		
120	>>	>>	>>	>>	>>	DMM	M	
112	>>	>>	>>	>>	D*D*			
104	>>	>>	>>	>>	D*D			
96	>>	>>	>>	>>	DD	MMM	HP	
84	>>	>>	>>	D*D*	>>	>>	>>	D
80	>>	>>	>>	>>	DM	MMP		
78	>>	>>	>>	D*D				
72	>>	>>	>>	DD	>>	>>	P	
64	>>	>>	>>	>>	MM	MPP		
60	>>	>>	>>	DM	>>	>>	>>	M
56	>>	A*	D*					
48	>>	A	D	MM	MP	PPP		
40	>>	B						
36	>>	>>	>>	MP	>>	>>	>>	P
32	>>	C	M	>>	PP			
30								
24	>>	D	>>	PP				
20	A							
16	B	E	P					
12	C							
10	D							
6	E							

Key to BTEC and UAL Grades
D* - Distinction (A* equivalent) D - Distinction M - Merit HM - High Merit
HP - High Pass P - Pass



Darpariaeth Safon Uwch ar gyfer 2023/24

Pwnc Safon Uwch	Gofynion Mynediad
Celf a Dylunio	5 TGAU gradd A*-C yn cynnwys Iaith Saesneg a B mewn Celf a Dylunio
Busnes	5 TGAU gradd A*-C, yn cynnwys Saesneg a Gradd B mewn Mathemateg
Bioleg	5 TGAU gradd A-C yn cynnwys gradd B o leiaf mewn Mathemateg a Saesneg, BB mewn gwyddoniaeth ddwbl neu BBB mewn gwyddoniaeth driphlyg.
Cemeg	5 TGAU gradd A-C yn cynnwys gradd B o leiaf mewn Mathemateg (Haen Uwch fel arfer), BB mewn gwyddoniaeth ddwbl neu BBB mewn gwyddoniaeth driphlyg.
Cyfrifiadureg	5 TGAU gradd A*-C, gradd B neu uwch mewn pwnc seiliedig ar Fathemateg neu Dechnoleg/Gwyddoniaeth ac C neu uwch mewn Saesneg
Troseddeg	5 TGAU gradd A*-C, yn cynnwys Saesneg
Dylunio a Thechnoleg	Gradd C neu uwch mewn Iaith Saesneg a Mathemateg. Gradd B mewn D&T ar Lefel TGAU
Technoleg Ddigidol	5 TGAU gradd C neu uwch, (neu gyfatebol)
Drama	Cymhwyster Lefel 2 yn y celfyddydau perfformio. Cyfwerth â phedair gradd C mewn TGAU (yn cynnwys un pwnc sy'n profi'r defnydd o'r Saesneg).
Llenyddiaeth Saesneg	5 gradd A*-C yn cynnwys Iaith Saesneg a Mathemateg, C ac uwch mewn Saesneg
Iaith a Llenyddiaeth Saesneg	5 gradd A*-C yn cynnwys Iaith Saesneg a Mathemateg, C ac uwch mewn Saesneg
Peirianeg	5 TGAU gradd A*-C yn cynnwys Mathemateg, Saesneg
Mathemateg Bellach	8 TGAU gradd A* i C yn cynnwys A o leiaf mewn Mathemateg.
Daearyddiaeth	5 TGAU gradd A*-C yn cynnwys Iaith Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Mae TGAU Daearyddiaeth yn ddymunol ond nid yn hanfodol, ond mae hyn yn ôl disgrisiwn y tiwtor. Os astudiwyd TGAU Daearyddiaeth mae angen gradd C neu uwch
Llywodraeth a Gwleidyddiaeth	5 TGAU gradd A*-C gyda gradd B mewn Hanes neu Saesneg yn ddymunol
Hanes	5 TGAU gradd A*-C gyda gradd B mewn Hanes neu Saesneg yn ddymunol
Y Gyfraith	5 TGAU gradd A*-C yn cynnwys gradd B neu uwch mewn TGAU Saesneg.
Mathemateg	8 TGAU gradd A*-C yn cynnwys B o leiaf mewn Mathemateg.
Gwyddor Feddygol	5 TGAU gradd A-C yn cynnwys C mewn Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth.
Addysg Gorfforol	5 TGAU gradd A*-C, yn cynnwys Saesneg a Mathemateg
Ffiseg	5 TGAU gradd A-C yn cynnwys gradd B o leiaf mewn Mathemateg (Haen Uwch fel arfer), BB mewn gwyddoniaeth ddwbl neu BBB mewn gwyddoniaeth driphlyg.
Ffotograffiaeth	5 TGAU gradd A-C, yn cynnwys Iaith Saesneg
Seicoleg	5 TGAU gradd A*-C yn cynnwys gradd B neu uwch mewn Iaith Saesneg a gradd C mewn Mathemateg yn ddymunol
Astudiaethau Crefyddol	5 TGAU gradd A*-C yn cynnwys Iaith Saesneg. Byddai gradd B neu uwch mewn Iaith Saesneg yn ddymunol.
Cymdeithaseg	5 TGAU gradd A*-C yn cynnwys B mewn Iaith neu Llenyddiaeth Saesneg.
Cymraeg	5 TGAU gradd A*-C yn cynnwys Cymraeg gradd C neu uwch mewn Iaith Saesneg a gradd B yn y cwrs Cymraeg llawn neu radd A yn y cwrs Cymraeg byr.

Safon Uwch

Mae ein Hacademi Safon Uwch yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau Safon UG ac U2, pob un wedi'i ddarparu gan dîm o staff proffesiynol a chymwys. Mae mwyafrif y myfyrwyr Safon Uwch amser llawn yn dilyn rhaglen o dri chymhwyster Safon Uwch yn ogystal â'r CBC.

Sylwch fod gofyn i fyfyrwyr astudio o leiaf dri phwnc Safon Uwch.

Gallwch hefyd ddewis ehangu'ch astudiaethau ymhellach trwy ddewis un neu ddau gymhwyster Safon Uwch ar y cyd â thystysgrif BTEC.

Mae gofynion mynediad ein cyrsiau Safon Uwch yn cael eu gosod ar sail pwnc unigol. Yn gyffredinol, mae pob pwnc yn gofyn am o leiaf 5 TGAU gradd C neu'n uwch, yn cynnwys Mathemateg a Saesneg. Yna mae gan bob pwnc ei ofynion pwnc-benodol ychwanegol ei hun a ddangosir gyferbyn.



Cyfrifyddiaeth

Mae ein cyrsiau AAT yn cael eu rhedeg yn rhan-amser ac ar gael ar Lefel 2, 3 a 4. Bydd hyn yn rhoi'r llwybr sylfaen perffaith i chi ar gyfer gyrfa fel cyfrifydd neu unrhyw rôl ariannol, mae'r opsiynau gyrfa yn ddiddiwedd.

GOFYNION MYNEDIAD Nid oes angen cymwysterau ffurfiol, ond dylai ymgeiswyr feddu ar sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol.

AAT L2 Cyfrifyddiaeth Rha

Nos Lun neu ddydd Mercher.

AAT L3 Cyfrifyddiaeth Rha

Dydd Llun neu nos Fercher.

AAT L4 Cyfrifyddiaeth AU Rha

Nos Lun a nos Fawrth neu ddydd Mawrth.

DILYNIANT Mae llawer o'n dysgwyr yn symud ymlaen i amrywiaeth o rolau cysylltiedig â chyfrifyddiaeth megis: Goruchwylydd cyfrifon taladwy a threuliau, Cyfrifydd ariannol cynorthwyol, Dadansoddwr masnachol, Cyfrifydd cost, Cyfrifydd asedau sefydlog, Rheolwr taliadau a bilio, Rheolwr cyflogres, Uwch-lyfrifwr, Uwch Swyddog Cyllid, Uwch Gyfrifydd Cronfa, Uwch Weinyddwr Ansoffedd, Goruchwyliwr Treth, Cyfrifydd TAW.

Astudiaeth Achos

KRYSTAL AUSTIN-BENNETT

Dechreuodd Krystal, dysgwr presennol AAT L4, ei chyfnod yn y coleg yn astudio AAT L2 ac ers hynny mae wedi cwblhau Lefel 3. Dywedodd "Roeddwn i'n edrych i gael newid gyrfa ac roedd dechrau ar Lefel 2 wedi rhoi'r sgiliau sylfaenol angenrheidiol i mi ddeall gwaith llyfrifydd a chyfrifeg. Rwyf wedi mwynhau dysgu sgiliau newydd ar bob lefel yn fawr ac mae hefyd wedi bod yn dda rhoi'r sgiliau newydd yr wyf wedi'u dysgu ar waith. Mae'r tiwtoriaid yn y coleg yn gymwynasgar ac yn wybodus iawn gyda phob math o gwestiynau a bob amser yno i helpu y tu allan i'r ystafell ddosbarth trwy e-byst hefyd".

Mae CDP yn cwmpasu ein cyrsiau AAT, gweler y dudalen CDP am fanylion pellach.

Busnes a Rheolaeth

Mae ein cyrsiau Busnes a Rheolaeth yn cynnig sylfaen ardderchog ar gyfer gweithio mewn unrhyw amgylchedd busnes, yn amrywio o Lefel 2 i Addysg Uwch.

CBAC Busnes Lefel UG/U2 ALL

GOFYNION MYNEDIAD 5 TGAU A*-C yn cynnwys Iaith Saesneg a gradd B mewn Mathemateg. Bydd Safon Uwch Busnes yn galluogi ymgeiswyr i ganolbwyntio ar natur ddeinamig y byd busnes cyfredol.

BTEC L2 Tystysgrif Estynedig mewn Busnes ALL

GOFYNION MYNEDIAD 4 TGAU gradd A*-D.

BTEC L3 Diploma Sylfaen Cenedlaethol mewn Busnes ALL

GOFYNION MYNEDIAD Disgwylir i ymgeiswyr feddu ar isafswm o 5 TGAU gradd A*-C neu gymwysterau cyfwerth neu Lefel 2 mewn Busnes ar radd Teilyngdod.

Drwy ddewis Busnes a Theithio, cewch gyfle i weithio gyda busnesau lleol ac asiantaethau teithio, gan gynnwys Mark Warner Travel.

Cyfleoedd Gyrfa

- Marchnata
- Rheolaeth AD
- Y Gyfraith
- Cynghorydd Teithio
- Criw awyrennau

Astudiaeth Achos

JOSHUA FLYNN

Cafodd y cyn-ddisgybl Ysgol Uwchradd Cyfarthfa, Joshua, ganlyniadau galwedigaethol rhagorol, gan ennill D*D*D* yn ei gwrs BTEC Lefel 3 Astudiaethau Busnes. Mae Joshua bellach wedi symud ymlaen i gynllun Prentisiaeth Rhwydwaith 75 i astudio Mesur Meintiau a Rheolaeth Fasnachol. Dywedodd Joshua, "Roeddwn i'n teimlo bod y cyfnod pontio cyfan yn llyfn iawn ac roedd y coleg yn groesawgar iawn o'r diwrnod cyntaf. Roedd y tiwtoriaid yn wych ac yn rhoi cefnogaeth lawn i mi i'm helpu i gyflawni'r graddau roeddwn i'n anelu at eu cyflawni."



Newydd ar gyfer 2023

Diploma Rhagarweiniol BTEC L1 mewn Astudiaethau Galwedigaethol

Mae'r cwrs Astudiaethau Galwedigaethol Lefel 1 yn garreg gamu ddelfrydol i ddatblygu eich sgiliau i symud ymlaen i un o'n rhaglenni Lefel 2 pwnc-benodol yn y coleg. Mae'r cwrs hwn yn darparu nifer o unedau craidd gan gynnwys sgiliau trefnu, sgiliau ymchwil, gweithio gydag eraill a chynllunio dilyniant. Ochr yn ochr â'r rhain, byddwch hefyd yn cwblhau unedau yn eich pynciau llwybr dewisol a llythrennedd a rhifedd.

Ydych chi am symud ymlaen i yrfa mewn Harddwch, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant, Busnes, Teithio a Thwristiaeth, Chwaraeon neu Wasanaethau Cyhoeddus? Os felly, mae'r cwrs hwn yn eich galluogi i gwblhau unedau yn y meysydd pwnc hyn, ochr yn ochr â datblygu eich sgiliau astudio a'ch llwybr dilyniant.

GOFYNION MYNEDIAD Nid oes angen unrhyw gymwysterau ffurfiol, ond dylai ymgeiswyr feddu ar sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol.

DILYNIANT Bydd cwblhau cwrs Astudiaethau Galwedigaethol Lefel 1 yn llwyddiannus yn eich galluogi i symud ymlaen i raglen Lefel 2 yn y coleg.



Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

CBAC L2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Craidd

GOFYNION MYNEDIAD 4 TGAU gradd A*-D o leiaf yn cynnwys gradd C mewn Saesneg a/neu Fathemateg a chyfweliad ffurfiol a geiradon. Gellir ystyried cymhwyster Lefel 1 hefyd.

CBAC L3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Craidd

GOFYNION MYNEDIAD 5 TGAU gradd A*-C yn cynnwys Saesneg a Mathemateg.

CACHE L2 Tystysgrif mewn Cefnogi Dysgu Ac Addysgu RhA

GOFYNION MYNEDIAD Dylai ymgeiswyr fod dros 16 oed a meddu ar y sgiliau academiaidd i weithio'n annibynnol ar Lefel 2.

CACHE L3 Diploma mewn Cefnogi Dysgu Ac Addysgu RhA

GOFYNION MYNEDIAD Dylai ymgeiswyr fod dros 16, a meddu ar Lefel 2 perthnasol gyda phrofiad blaenorol o weithio mewn amgylchedd ysgol neu goleg.

DILYNIANT Bydd y cymwysterau hyn yn rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i chi o rôl a chyd-destun gofal, dysgu a datblygiad plant.

Astudiaeth Achos

ANWEN DAVIES

Mae Anwen Davies, sy'n ddysgwr blaenorol o Aberhonddu, wedi gweithio'n eithriadol o galed i gyrraedd ei graddau dymunol y flwyddyn academiaidd hon. Mae Anwen wedi ennill lle cyfyngedig yn y Coleg Norland enwog yng Nghaerfaddon, sydd ond yn cael eu cynnig i 100 o fyfyrwyr y flwyddyn academiaidd.



Astudiaeth Achos

CALLUM THOMAS

Mae'r cyn-ddysgwr Callum Thomas wedi bod yn fyfyrwr yn y coleg ers pedair blynedd ac mae wedi dangos penderfyniad a chymhelliant i gymhwyso fel ymarferwr Lefel 3. Mae Callum bellach wedi sicrhau swydd yn y sector gofal plant, fel dirprwy reolwr mewn lleoliad dechrau'n deg.



Drwy ddewis astudio gyda ni byddwch yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn lleoliadau sy'n berthnasol i'r Diwydiant gyda darparwyr a lleoliadau gofal plant lleol, gan gynnwys ysgolion cynradd lleol. Byddwch hefyd yn cael y cyfle i wella eich sgiliau trwy gwblhau rhai o fodiwlau eich cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Gymraeg yn sgil y mae galw mawr amdani yn y sector Gofal Plant a bydd hwn yn gyfle perffaith i chi ychwanegu gwerth at eich CV, ceisiadau prifysgol a cheisiadau am swyddi a sicrhau bod pobl yn sylwi arnoch.

Cyfleoedd Gyrfa

- › Addysgu
- › Cynorthwywyr addysgu
- › Nanis
- › Au pair
- › Therapydd Chwarae
- › Iaith a Lleferydd
- › Nyrsio Pediatrig



Adeiladwaith

Mae gan ein hadran Adeiladwaith enw da rhagorol am ddarparu cyrsiau adeiladu o safon uchel sy'n cael eu cydnabod gan y diwydiant. Mae ein myfyrwyr nid yn unig yn elwa ar ein gweithdai a chyfleusterau adeiladu pwrpasol, ond rydym hefyd yn darparu cyfleoedd profiad gwaith cenedlaethol a rhyngwladol rhagorol, gan alluogi'n myfyrwyr i'n gadael ni gydag ystod o gymwysterau a sgiliau i'w helpu i serennu. Felly, os ydych chi eisiau gyrfa yn y diwydiant adeiladu, bydd ein cyrsiau'n rhoi'r sgiliau a'r profiad i chi i greu sylfeini cryf ar gyfer eich dyfodol.

City & Guilds Lefel 1 Diploma Adeiladwaith Aml-Sgiliau

Mae'r cymhwyster hwn yn rhaglen blwyddyn ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno ymuno â'r diwydiant adeiladwaith. Byddwch yn ennill profiad o'r gwahanol sgiliau mewn amrywiaeth o lwybrau adeiladwaith yn cynnwys gosod brics, gwaith saer ac asiedydd, peintio ac addurno a phlastro. Ar ôl cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus, byddwch yn cael y cyfle i symud ymlaen i gymhwyster Lefel 2, prentisiaeth neu hyfforddiant pellach yn y grefft adeiladwaith o'ch dewis.

GOFYNION MYNEDIAD Nid oes gofynion mynediad ffurfiol, fodd bynnag yn ystod y cyfweiliad bydd angen i chi ddangos diddordeb mewn dysgu mwy am adeiladwaith gyda'r bwriad o symud ymlaen i hyfforddiant neu waith yn y diwydiant.

DILYNIANT Gallech symud ymlaen i astudio cyfuniad o ddwy o'r crefftau canlynol Gwaith Brics, Gwaith Saer a Gwaith Coed, Peintio ac Addurno neu Blastro ar Lefel Sylfaen 2. Fel arall, gallech symud ymlaen i hyfforddiant prentisiaeth neu gyflogaeth yn y diwydiant adeiladwaith.

City & Guilds Lefel 2 Diploma Sylfaen mewn Adeiladwaith a'r Amgylchedd Adeiledig

Mae'r cymhwyster hwn yn rhoi cyflwyniad eang i adeiladwaith a'r amgylchedd adeiledig. Fe'i datblygwyd ar gyfer unigolion sy'n gweithio, neu'n bwriadu gweithio, yn y diwydiant adeiladwaith. Bydd y cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i fynd ymlaen i astudio amrywiaeth o gyrsgau adeiladwaith Lefel 2 neu 3 eraill sy'n berthnasol i'w maes crefft o ddiddordeb. Fel rhan o'ch astudiaethau bydd gofyn i chi astudio dau lwybr adeiladwaith o'r canlynol:

- › Gwaith Brics a Gwaith Blociau
- › Galwedigaethau Gwaith Saer a Choed
- › Systemau Electrodechnegol
- › Peintio ac Addurno
- › Plastro a Systemau Mewnol

GOFYNION MYNEDIAD 4 TGAU gradd D neu uwch (neu gyfatebol) yn cynnwys Mathemateg a Saesneg Fel arall, bydd dysgwyr wedi cwblhau Diploma Adeiladwaith Aml-Sgiliau Lefel 1 gyda chymeradwyaeth uchel gan eu tiwtor, ac wedi cyflawni cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC) Lefel 1 mewn Cymhwyso Rhif a Chyfathrebu. Yn ystod y cyfweiliad, bydd angen i chi ddangos diddordeb mewn dysgu mwy am adeiladwaith gyda'r bwriad o symud ymlaen i hyfforddiant neu waith yn y diwydiant.

DILYNIANT Gallech symud ymlaen i ddysgu pellach mewn Gwaith Brics, Gwaith Saer a Gwaith Coed, Peintio ac Addurno neu Blastro trwy ein Llwybr Dilyniant L2. Fel arall, gallech symud ymlaen i hyfforddiant prentisiaeth neu gyflogaeth yn y diwydiant adeiladwaith.



City & Guilds Lefel 2 Dilyniant mewn Adeiladwaith

Mae'r dilyniant mewn Adeiladwaith yn darparu llwybr parhaus i ddysgwyr nad oes ganddynt gyflogwr neu brentisiaeth. Mae wedi'i anelu at ddysgwyr sydd wedi cyflawni cymhwyster sylfaen L2 mewn adeiladwaith a'r amgylchedd adeiledig. Ar ôl ei gwblhau, bydd y cymhwyster yn rhoi'r wybodaeth i ddysgwyr symud ymlaen i L3 Adeiladwaith mewn un maes crefft a fydd yn wedi'i leoli ar safle:

Fel rhan o'ch astudiaethau bydd gofyn i chi astudio un llwybr adeiladwaith o blith y canlynol:

- › Gosod brics
- › Gwaith Saer ar Safle
- › Peintio ac Addurno
- › Plastro

DILYNIANT Gallech symud ymlaen i ddysgu pellach mewn Gwaith Brics, Gwaith Saer a Gwaith Coed, Peintio ac Addurno neu Blastro trwy Adeiladwaith (Maes Crefft) L3. Fel arall, gallech symud ymlaen i hyfforddiant prentisiaeth neu gyflogaeth yn y diwydiant adeiladwaith.

Rhagolygon Gyrfa

- › Saer coed
- › Peintiwyr
- › Plastrwr
- › Briciwr
- › Dylunio Set
- › Peirianeg Sifil – datblygiadau ffordd – A465
- › Dylunio

Drwy astudio Adeiladwaith gyda ni, byddwch yn cael y cyfle i ymgysylltu â chyflogwyr lleol a chenedlaethol i wella'ch sgiliau a'ch cefnogi i symud ymlaen i gyflogaeth ar ddiwedd eich astudiaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- › Tilbury Douglas
- › Morgan Sindall
- › Arc Construction
- › DE Plant
- › Future Valleys Construction



Astudiaeth Achos THOMAS AMOS

Diploma Lefel 3 Peintio ac Addurno.



“Rwyf wedi mwynhau'r ddwy flynedd ddiwethaf yn fawr yn astudio sut i ddod yn beintiwr ac addurnwr ac wrth fy modd fy mod bellach yn symud ymlaen i Ddiploma Lefel 3, y flwyddyn academaidd hon. Mae'r cwrs wedi bod yn ymarferol heriol, o ystyried ei fod yn gwrs crefft a'r sgiliau angenrheidiol, ond rwyf wrth fy modd â pha mor greadigol y gallwch fod. Pan fyddaf yn cyflawni tasg yn y dosbarth, mae'n gwneud i mi deimlo fy mod wedi cyflawni rhywbeth ac mae hyn yn rhoi boddhad i mi, sef un o'r prif resymau pam rwyf wrth fy modd! Mae'r cwrs wedi fy ngalluogi i ymestyn allan o'm parth cysur, gan gwrdd â phobl newydd a staff hefyd. Mae'r staff addysgu wedi bod yn anhygoel ac yn gefnogol iawn trwy gydol fy astudiaethau. Maent wedi bod yn fodelau rôl i ni i gyd ac rwyf wedi mwynhau gwrando ar eu harbenigedd a'u cyngor, a roddir o'u profiadau personol eu hunain yn y gorffennol. Mae cael y cyfle hwn wedi fy ngalluogi i symud ymlaen i swydd yr wyf yn ei charu.”



Astudiaeth Achos

JOSHUA TURNBULL LEASK

"Tra'n astudio yn Y Coleg Merthyr Tudful mae fy mhrofiad wedi bod yn gadarnhaol iawn, a hoffwn barhau y flwyddyn nesaf i ennill fy Lefel 3 mewn Gwaith Saer ar Safle.

Dechreuodd y cwrs drwy astudio dwy grefft ar lefel sylfaen cyn gallu dewis ein llwybr gyrfa dewisol. Mae ein sesiynau ymarferol yn bennaf yn ail-greu senarios byd go iawn fel gosod cegin gyda gofynion penodol, sydd weithiau'n anodd. Teimlaf fod hyn yn gwneud yr ymarferol yn llawer mwy ystyrlon ac yn cynyddu cynhyrchiant pawb. Er mwyn gwella ein dysgu ymhellach, rydym wedi cael rhai teithiau oddi ar y safle, un i'r NEC yn Birmingham ar gyfer yr wythnos adeiladwaith, lle cyflwynwyd technolegau a deunyddiau newydd. Roedd y daith arall i gwmni adeiladu setiau theatr yng Nghaerdydd, a gyflwynodd bwysigrwydd perthnasoedd gwaith ar draws pob crefft mewn amgylchedd gweithdy."



Y Diwydiannau Creadigol

Mae'r Diwydiannau Creadigol yn ymgorffori'r Celfyddydau Perfformio, Drama, Cerddoriaeth, Y Cyfryngau, Ffilm, Ffotograffiaeth a Chelf a Dylunio. Er bod y cyrsiau a gynigir yn benodol iawn mae yna lawer o gyfleoedd ar gyfer cydweithio trawsgwricwlaidd ar brosiectau ar raddfa fawr. Mae ymgysylltu â'r gymuned a chyflogwyr lleol yn bwysig iawn ac mae'r ymagwedd alwedigaethol hon at waith prosiect yn gryfder mawr yn yr adran. Mae cyfleoedd i arddangos gwaith creadigol ymarferol yn helaeth ac mae ein perfformiadau theatr, digwyddiadau cerddoriaeth fyw, arddangosiadau ffilmiau ac arddangosfeydd celfyddydau gweledol o ansawdd uchel, gan dderbyn adborth ardderchog gan rieni, gweithwyr proffesiynol y diwydiant a'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae cyfleoedd hefyd i gymryd rhan mewn ymweliadau addysgol ag orielau neu theatrau yn y DU a thramor.

CBAC UG/U2 Celf a Dylunio (Celf) ALL

GOFYNION MYNEDIAD 5 TGAU gradd A*-C, yn cynnwys laith Saesneg a B mewn Celf a Dylunio. Bydd gofyn i chi ddod ag enghreifftiau o'ch gwaith celf i'ch cyfweiliad.

CBAC Lefel UG/U2 Celf a Dylunio (Ffotograffiaeth) ALL

GOFYNION MYNEDIAD 5 TGAU gradd A*-C, yn cynnwys laith Saesneg. Bydd gofyn i chi ddod ag enghreifftiau o'ch gwaith celf i'ch cyfweiliad.

DILYNIANT Mae ymgeiswyr llwyddiannus fel arfer yn symud ymlaen i Ddiploma Astudiaethau Sylfaen. Mae opsiwn hefyd i wneud cais ar gyfer un o'n Graddau Sylfaen mewn Ffotograffiaeth neu Ymarfer Celf, sydd bellach â blwyddyn atodol BA (Anrh). Gall myfyrwyr hefyd ddefnyddio eu Safon U Celf a Dylunio i Gronni pwyntiau UCAS tuag at geisiadau am gyrsiau prifysgol y tu allan i'r celfyddydau gweledol.

UAL L2 Diploma Cyntaf Celf a Dylunio ALL

GOFYNION MYNEDIAD 4 TGAU gradd D neu uwch, rhaid i ymgeiswyr ddangos dawn mewn Celf a Dylunio. Bydd gofyn i chi ddod ag enghreifftiau o'ch gwaith celf i'ch cyfweiliad.

UAL L3 Diploma Celf a Dylunio ALL

GOFYNION MYNEDIAD 4 TGAU gradd C neu uwch yn cynnwys TGAU Celf neu UAL/BTEC Lefel 2 mewn Celf a Dylunio. Bydd gofyn i chi ddod ag enghreifftiau o'ch gwaith celf i'ch cyfweiliad.

UAL L3 Diploma mewn Cynhyrchu a Thechnoleg y Cyfryngau Creadigol

GOFYNION MYNEDIAD Cymhwyster Lefel 2 mewn cynhyrchu cyfryngau creadigol. 4 TGAU gradd C neu uwch (yn cynnwys un pwnc sy'n profi'r defnydd o'r Saesneg). Gallwch ddod ag enghreifftiau o unrhyw waith cyfryngau/ffilm i'ch cyfweiliad.

UAL L3 Diploma Sylfaen mewn Celfyddydau Perfformio a Chynhyrchu

GOFYNION MYNEDIAD Cymhwyster Lefel 2 yn y celfyddydau perfformio. Cyfwerth â 4 gradd C mewn TGAU (yn cynnwys un pwnc sy'n profi'r defnydd o'r Saesneg). Bydd angen clyweliadau yn y cyfweiliad.

UAL Lefel 3 Diploma Estynedig mewn Cerddoriaeth

GOFYNION MYNEDIAD Cymhwyster Lefel 2 mewn Cerddoriaeth. Cyfwerth â 4 gradd C mewn TGAU (yn cynnwys un pwnc sy'n profi'r defnydd o'r Saesneg). Bydd gofyn i chi fynychu clyweliad fel rhan o ofynion mynediad y cwrs hwn.

DILYNIANT Gall myfyrwyr symud ymlaen i gyrsiau addysg uwch.

Drwy ddewis astudio gyda ni, cewch gyfle i ymgysylltu â:

- › Gweithdai a rhaglenni sy'n berthnasol i'r diwydiant
- › Academi Sgrin Cymru
- › Stiwdios Bad Wolf
- › Cysylltiadau â Merthyr Creadigol
- › Arddangosfeydd Celf a Ffotograffiaeth Blynnyddol
- › Perfformiadau a chynrychiadau rheolaidd
- › Lleoliadau Gwaith Gŵyl y Dyn Gwyrdd
- › Gŵyl National Theatre Connections
- › Partneriaeth Theatr y Sherman
- › Institute of the Arts Barcelona
- › Cerdd Gymunedol Cymru

Astudiaeth Achos

CONNOR BAILEY

"Yn ystod y cwrs dwy flynedd, astudiais yr UAL L3 Celf a Dylunio amser llawn. O ddiwrnod cyntaf y cwrs teimlais yn hapus a diogel yn fy mhenderfyniad i astudio rhaglen alwedigaethol greadigol gyda'r bwriad o ddilyn gyrfa yn y sector diwydiannau creadigol.

Cefais gyfle i archwilio fy niddordebau mewn celf a dysgu'r sgiliau digidol sy'n hanfodol ar gyfer dylunio graffeg. Roedd y prosiectau bob amser yn gyffrous ac yn ddiddorol i weithio drwyddynt. Er mwyn fy helpu i lwyddo, gallwn bob amser ddibynnu ar fy narlithwyr i'm cynorthwyo mewn unrhyw ffordd y gallent, boed hynny gyda fy astudiaethau neu fy amgylchiadau personol.

Nawr, rwyf ar hyn o bryd yn fy mlwyddyn gyntaf fel myfyrwr israddedig ym Mhrifysgol Bath Spa yn astudio Cyfathrebu Graffig, ac rwy'n gobeithio dilyn graffeg fel gyrfa yn y dyfodol."



Cyfleoedd Gyrfa

- › Artist
- › Cerddor
- › Dylunydd Graffeg
- › Cyfryngau – cyflwynydd teledu
- › Ffilm
- › Cynhyrchu stiwdio

Astudiaeth Achos

HOLLIE POWLES

"Roedd astudio Celf a Dylunio yng ngholeg Merthyr yn brofiad gwych ac yn ffordd wych o ddatblygu fy sgiliau celf. Mwynheais archwilio gwahanol lwybrau creadigol nad wyf erioed wedi rhoi cynnig arnynt o'r blaen megis dylunio graffeg, ffotograffiaeth a serameg. Er mai peintio a lluniadu yw fy mhrif gryfder, fe wnes i fwynhau gweithio gyda thechnegau a phrosesau newydd yn fawr.

Mae'r tiwtoriaid yn yr adran gelf i gyd yn gefnogol iawn ac wedi fy annog i fynd allan o'm parth cysur a datblygu fy arddull artistig. Rwyf bellach yn astudio gradd Celfyddyd Gain ym Mhrifysgol Abertawe ac ni fyddwn wedi ei gwneud heb gefnogaeth y tiwtor. Pan fyddaf wedi cwblhau fy ngradd, rwy'n gobeithio symud ymlaen i yrfa mewn tatŵio."



Diwydiannau Digidol

(Cyfrifiadura, TGCh, Dylunio Gemau a E-chwaraeon)

Mae ein cyrsiau'r diwydiant digidol yn cynnig sylfaen ardderchog i chi gael y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i'ch helpu i gynyddu'ch cyfleoedd cyflogaeth, gan roi cyfle i chi arbenigo mewn gwahanol feysydd, fel Dylunio Gemau, Diogelwch Systemau, Diogelwch Cyfrifiaduron a Gwaith Fforensig, Dylunio Apiau Symudol, Animeiddio Digidol, Ffrydio, Hyfforddi, Golygu fideo, Datblygu Gwefannau neu raglennu.

CBAC Lefel UG/U2 Cyfrifiadureg ALI

GOFYNION MYNEDIAD 5 TGAU A*-C, yn ddelfrydol Cyfrifiadureg a/neu Fathemateg gradd B neu uwch. Byddai diddordeb mewn rhaglennu, technoleg a phynciau STEM yn fuddiol.

CBAC UG/U2 Technoleg Ddigidol

GOFYNION MYNEDIAD 5 TGAU A*-C, gan gynnwys TGCh, Cyfrifiadureg neu Dechnoleg Ddigidol TGAU yn ddymunol. Byddai diddordeb mewn datblygu gemau, technoleg a deallusrwydd artifisial yn fuddiol.

BTEC L1/L2 Tystysgrif Est Gyntaf Technoleg Gwybodaeth a Chreadigol ALI

GOFYNION MYNEDIAD Lefel 1 2 TGAU gradd A*-F Mae'n ofynnol i ymgeiswyr feddu ar sgiliau sylfaenol mewn Llythrennedd a Rhifedd a diddordeb mewn TG, Technoleg, Dylunio a Chyfrifiadura.

GOFYNION MYNEDIAD Lefel 2 4 TGAU gradd A*-D neu Lefel 1 TG. Dylai ymgeiswyr feddu ar sgiliau sylfaenol mewn Llythrennedd a Rhifedd a diddordeb mewn TG, Technoleg, Dylunio a Chyfrifiadura.

BTEC Lefel 3 Diploma Sylfaen Cenedlaethol mewn Technoleg Gwybodaeth ALI/EICTFT

GOFYNION MYNEDIAD 5 TGAU gradd C neu uwch, neu gyfwerth. Hefyd, diddordeb mewn TG, Technoleg Ddigidol, Cyfrifiadura, Seiber, Rhaglennu, Dylunio Gwefannau a Gemau.

UAL L3 mewn Cyfrifiadura Creadigol a Dylunio Gemau ALI

GOFYNION MYNEDIAD 5 TGAU gradd A*-C neu gyfwerth. Hefyd, diddordeb mewn Dylunio Gemau, Graffeg, Animeiddio, Sain a Rhaglennu.

BTEC L3 Diploma Sylfaen Cenedlaethol mewn E-chwaraeon

GOFYNION MYNEDIAD 5 TGAU gradd C neu uwch, neu gyfwerth. Hefyd, diddordeb mewn Gemau Cystadleuol a'r diwydiant o'i amgylch, gan gynnwys meysydd megis (ond heb fod yn gyfyngedig i); Dadansoddiad Cystadleuol, Brandio, Cynhyrchu Fideo, Dylunio Gemau, Rheoli Digwyddiadau, Iechyd a Ffitrwydd a Sylwebu dros Gemau Byw.

DILYNIANT Bydd cwblhau'r cyrsiau hyn yn llwyddiannus yn eich galluogi i symud ymlaen i gyflogaeth neu sefydliad Addysg Uwch i astudio cyrsiau mewn amrywio ddiwydiannau digidol, neu'r HND yr ydym yn ei gynnig yma yn y coleg.



Astudiaeth Achos



YUKIKA OZAKI-GARRETT

Cyflawnodd cyn-ddysgwr Ysgol Uwchradd Gwernyfed Yukika Ragoriaeth gyffredinol yn ei chwrs UAL L3 mewn Cyfrifiadura Creadigol a Dylunio Gemau. Dywedodd ei thiwtor personol, "Mae Yuki yn

hynod greadigol ac yn ddysgwr rhesymegol. Dangosodd ddawn unigryw ar gyfer Dylunio Gemau ac roedd ei hangerdd a'i brwdfrydedd yn disgleirio trwy gydol y 2 flynedd ar y cwrs". Mae Yukika wedi ennill lle ym Mhrifysgol Swydd Stafford i astudio Dylunio a Rhaglennu Gemau.

Newydd ar gyfer 2022 – partneriaeth gyda Choleg Seiber Cymru

Mae'r coleg yn gweithio mewn partneriaeth â Choleg Seiber Cymru i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn rhaglen a arweinir gan y diwydiant lle byddwch yn elwa o weithio gyda chyflogwyr allweddol, gan gynnwys Dŵr Cymru, Bridewell, Admiral, Fujitsu a Thales trwy fentora, darlithoedd gwadd, lleoliadau gwaith a gweithdai.

Mae Coleg Merthyr Tudful hefyd wedi cael ei gydnabod fel Coleg Ysgol CyberFirst



Cyfleoedd Gyrfa

- ▶ Rhaglennydd
- ▶ Roboteg
- ▶ Deallusrwydd Artiffisial
- ▶ Dylunydd Gemau 2D/3D
- ▶ Seiberddiogelwch
- ▶ Dadansoddwr Cyfrifiadurol
- ▶ Dylunio Systemau
- ▶ Dylunydd Graffeg
- ▶ Crëwr Cynnwys



Gosodwaith Trydanol

Mae'r diwydiant Trydanol yn farchnad £23.6bn felly mae galw o hyd am drydanwyr yn y DU. Mae ein cymwysterau Lefel 1 a 2 yn ddelfrydol i chi os oes gennych ddiddordeb mewn gyrfa yn y diwydiant gosodwaith trydanol. Mae'n eich galluogi i ddysgu, datblygu ac ymarfer y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth a dilyniant gyrfa.

Diploma L1 mewn Gosodwaith Trydanol ALL

GOFYNION MYNEDIAD 3 TGAU gradd D neu uwch (yn cynnwys gradd D mewn Mathemateg) neu gymhwyster Trydanol Lefel 1 addas. Rhaid i chi allu dangos presenoldeb o 90% yn ystod eich cwrs astudio.

L2 Dilyniant mewn Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu - Gosodwaith Trydanol ALL

GOFYNION MYNEDIAD 4 TGAU gradd C neu uwch (yn cynnwys Saesneg a Mathemateg) neu gymhwyster Trydanol Lefel 1 addas. Rhaid i chi allu dangos presenoldeb o 90% yn ystod eich cwrs astudio.

DILYNIANT Er nad nod y cymhwyster hwn yn gwneud ymgeiswyr yn drydanwyr cwbl gymwys, mae'n galluogi dysgwyr i ddatblygu ac ymarfer y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gyrfa mewn gosodwaith trydanol neu beirianeg drydanol. Mae'n addas ar gyfer y rhai sydd am symud ymlaen i raglen Prentisiaeth Electrotechnegol.



Astudiaeth Achos

JAY DAVIES


Mae cyn-ddisgybl Ysgol Uwchradd Cyfarthfa ac Enillydd Medal Arian Cystadleuaeth Sgiliau Cymru, Jay Davies, wedi dychwelyd i astudio Gosodwaith Trydanol Lefel 2 ar ôl pasio Lefel 1 yn llwyddiannus. Wrth sôn am ei amser yn y coleg, dywedodd Jay



"Mae fy amser yn y coleg wedi bod yn llwyddiannus iawn. Dewisais Gosodwaith Trydanol i helpu i wella fy siawns o gael prentisiaeth yn y Diwydiant Trydanol. Roedd cael profiad ymarferol yn y gweithdy wedi fy helpu i roi hwb i fy hyder a fy sgiliau i weithio yn y Diwydiant Trydanol. Fe wnaeth fy nhwtoriaid fy annog i gystadlu yng Nghystadleuaeth Sgiliau Cymru ar gyfer Gosodiadau Trydanol ac Enillais Fedal Arian. Fy nghynlluniau ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf yw cael gwaith fel Prentis Trydanol gyda Chontractwr Lleol, a gobeithio dod yn Drydanwr Cymwysedig."



Peirianeg



Pam dewis astudio Peirianeg gyda ni?

Mae gennym gyfleusterau gwych, partneriaethau rhagorol a chyfleoedd prentisiaeth gyda sefydliadau lleol ee General Dynamics. Partneriaeth sefydledig gyda Phrifysgol De Cymru a chyfleoedd i gymryd rhan mewn lleoliadau profiad gwaith Ewropeaidd. Mae ein cyrsiau gweithgynhyrchu uwch yn cwmpasu technolegau cyffrous a modern mewn roboteq, ynni gwyrdd a systemau Arolygu. Cyfunwch hyn â gweithdrefnau CAD/CAM greddfol a gwaith prosiect mynegiannol a byddwch yn derbyn profiad peirianeg ymarferol.

BTEC L3 Dyfarniad Sylfaen mewn Peirianeg Gweithgynhyrchu Uwch ALL

GOFYNION MYNEDIAD 5 TGAU gradd A*-C yn cynnwys Mathemateg, Saesneg a chyfweliad llwyddiannus gan ddangos cymhelliant ac ymrwymiad i'r rhaglen.

EAL L2 Diploma mewn Peirianeg a Thechnoleg Gweithgynhyrchu ALL

GOFYNION MYNEDIAD Pedwar TGAU gradd D neu uwch (yn cynnwys Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth), neu gymhwyster peirianeg priodol.

BTEC L3 Tystysgrif mewn Peirianeg Gweithgynhyrchu Uwch/Pellach

GOFYNION MYNEDIAD 5 TGAU gradd A*-C yn cynnwys Mathemateg, Saesneg a chyfweliad llwyddiannus gan ddangos cymhelliant ac ymrwymiad i'r rhaglen.

Mae ein manyleb Lefel UG/U Dylunio a Thechnoleg yn cynnig cyfle unigryw yn y cwricwlwm i ddysgwyr nodi a datrys problemau go iawn trwy ddylunio a gwneud cynhyrchion neu systemau mewn amrywiaeth o ddeunyddiau. Bydd datblygiad sgil cytbwys yn galluogi dysgwyr i fynegi eu hunain gan ddefnyddio dulliau a thechnegau a geir yn y diwydiant dylunio. Mae dysgwyr hefyd yn elwa ar gyfoeth o offer arbenigol sy'n helpu i greu amgylchedd lle mae meddwl yn greadigol yn asio â realiti llawr gwlad.

CBAC Lefel UG Dylunio a Thechnoleg - (Dylunio Cynnyrch) ALL

GOFYNION MYNEDIAD TGAU Gradd C neu uwch mewn Iaith Saesneg a Mathemateg ac isafswm o radd B mewn Dylunio a Thechnoleg ynghyd â chyfuniadau dymunol o, neu o leiaf Dylunio Cynnyrch, Celf neu Beirianeg eto ar radd C neu uwch.

DILYNIANT Mae'r cymhwyster hwn yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio dylunio a thechnoleg neu faes cysylltiedig trwy ystod o gyrsiau addysg uwch neu fynediad uniongyrchol i gyflogaeth. Gall llwybrau gyrfa nodweddiadol gynnwys Dylunio Cynnyrch, Ymchwil i'r Farchnad, Pensaernïaeth, Animeiddio, Dylunio Setiau, diwydiant Modurol a sawl ffurf ar Ddylunio Peiranyddol.

Astudiaeth Achos

KIAN COURT

Cyn-ddisgybl Ysgol Uwchradd Cyfarthfa Kian Court. Cychwynnodd ar y cwrs Diploma Lefel 2 yn y coleg yn 2020, gan ennill Rhagoriaeth gyffredinol i symud ymlaen i'r rhaglen Peirianeg Uwch Lefel 3, pan ddangosodd ddiddordeb arbennig mewn Dylunio â Chymorth Cyfrifiadur Peirianeg. Enillodd Kian ragoriaeth gyffredinol ar ddiwedd blwyddyn gyntaf y Lefel 3 a sicrhodd brentisiaeth Dylunio â Chymorth Cyfrifiadur Peirianeg gyda Advanced Furniture. Mae Kian bellach yn astudio'n rhan-amser yn y coleg i gwblhau Diploma Lefel 3 mewn Peirianeg. Dywedodd Kian, "Rwy'n mwynhau astudio yn y coleg yn fawr. Roedd fy nhiwtoriaid pwnc yn credu ynof o'r cychwyn cyntaf. Maent wedi bod yn gefnogol ac yn galonogol ac wedi fy helpu i gyrraedd y nodau a osodais i mi fy hun. Rwyf wedi ennill cyfoeth o ddealltwriaeth a phrofiad ar draws ystod o ddisgyblaethau peirianeg ac mae hyn wedi bod yn amhrisiadwy wrth weithio yn y diwydiant. Rwy'n gobeithio cwblhau fy mhrentisiaeth peirianeg i ddod yn beiriannydd cwbl gymwys a pharhau yn yr yrfa rwy'n ei charu".



Trwy astudio Peirianeg gyda ni, byddwch yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o brosiectau ymgysylltu â chyflogwyr, teithiau ac ymweliadau, gan roi'r cyfle perffaith i chi wella'ch sgiliau a rhoi hwb ychwanegol i chi i gefnogi eich dilyniant i gyflogaeth, prifysgol neu prentisiaeth. Ymhlith y cyflogwyr allweddol mae Panasonic, yr Academi Beirianeg Frenhinol, Nexperia (Wafer Fab Casnewydd gynt), EESW STEM Cymru, KUKA Robotics, Cymdeithas Roced Prifysgol De Cymru, F1 mewn Ysgolion a llawer mwy!

Cyfleoedd Gyrfa

Pob math o Beirianeg

- Awyrofod
- Cemegol
- Mecanyddol
- Sifil
- Peirianeg





ESOL

Addysgir Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) yn Y Coleg, sy'n cynnig cyfle i ddysgwyr ddechrau dysgu Saesneg, neu wella eu Saesneg. Mae ein cyrsiau ESOL yn canolbwyntio ar Saesneg bob dydd, cyfathrebu, rhifedd, sgiliau cyfrifiadurol, sgiliau galwedigaethol a sgiliau cyflogadwyedd. Mae rhai wedi mynd ymlaen i Raddau Sylfaen yn cynnwys Busnes a Ffotograffiaeth ogystal ag astudio yn y Brifysgol. Fel rhan o'r farchnad fyd-eang, mae ein myfyrwyr yn cael eu cyflogi ar draws y byd, ond mae rhai yn dewis ail-fuddsoddi eu sgiliau newydd a sefydlu eu busnesau eu hunain ym Mwrdeistref Merthyr Tudful. Mae ESOL hefyd yn rhoi hyder i ddysgwyr gael gwaith mewn ystod o sectorau, er enghraifft, fel cyfieithwyr, cynorthwyywyr addysgu, yr heddlu a goruchwylwyr mewn ffatrioedd lleol.

Addysgir Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL)
yn Y Coleg, sy'n cynnig cyfle i ddysgwyr ddechrau
dysgu Saesneg, neu wella eu Saesneg a symud
ymlaen i safon Lefel 2.

GOFYNION MYNEDIAD Dim gofynion mynediad ffurfiol,
Dewisir ymgeiswyr ar sail cyfswiliad.

DILYNIANT Mae llawer o'n myfyrwyr yn symud ymlaen i
gyrsiau amser llawn neu ran-amser yn y coleg, yn cynnwys
Busnes, Gofal Plant a Chwaraeon. Mae rhai wedi mynd
ymlaen i Raddau Sylfaen yn cynnwys Busnes a Ffotograffiaeth
ogystal ag astudio yn y Brifysgol.

Astudiaeth Achos

PATRYCJA STELMACH

Daeth Patrycja Stelmach, sy'n ddysgwr ESOL ar hyn o bryd, o Wlad Pwyl yn wreiddiol ond mae wedi byw ym Merthyr Tudful gyda'i phlant ers blyneddau lawer. Cwblhaodd Patrycja ei chymhwyster Mynediad 3 yn 2021-2022 ac mae'n parhau â'i hastudiaethau eleni ar Lefel 1 a TGAU Mathemateg. Mae Patrycja yn gobeithio y bydd ei chymwysterau Saesneg o fudd iddi tuag at fod yn berchen ar ei busnes ffotograffiaeth ei hun rhyw ddydd a darparu bywyd da i'w theulu.



“Yn Y Coleg Merthyr Tudful credwn mewn creu cymuned ddysgu gynhwysol sy'n dathlu unigrywiaeth pob dysgwr.”

Dysgu Sylfaen

GOFYNION MYNEDIAD Mae mynediad i bob un o'n cyrsiau Dysgu Sylfaen yn gofyn am gyfweiliad gyda'r staff addysgu cyn cael eich derbyn ar y cwrs. Nid yw symud ymlaen rhwng lefelau yn awtomatig.

- › Sgiliau Bywyd
- › Datblygu Sgiliau
- › E3 i Astudiaethau Galwedigaethol
- › NEWYDD Interniaeth â Chymorth

DILYNIANT Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus efallai y gallech symud ymlaen i gwrs Lefel 1 mewn meysydd eraill, neu ddewis symud i mewn i waith.

Astudiaeth Achos

BEN LEWIS

Fy enw i yw Ben Lewis, ac rydw i wedi bod yn fyfyrwr yn Y Coleg Merthyr Tudful ers 2018.

Cwblheais fy nghwrs Datblygu Sgiliau y llynedd, lle roeddwn yn gallu datblygu fy sgiliau a hyder i symud ymlaen i gwrs newydd.

Eleni rwyf wedi dechrau cwrs Interniaeth â Chymorth yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, rwyf wedi cael y cyfle i roi cynnig ar wahanol rolau swyddi yn yr ysbyty, rhywbeth yr wyf wedi'i fwynhau'n fawr.

Fy nod yw cael swydd yn yr ysbyty ar ôl i mi gwblhau fy nghwrs, gan y byddwn wedi dysgu'r swydd wrth astudio. Mae'r coleg wir yn fy helpu i weithio tuag at gael gwaith cyflogedig mewn swydd rwy'n ei mwynhau."



Trin Gwallt a Harddwch

O Lefel 1 hyd at Lefel 3, mae ein cyrsiau trin gwallt a harddwch yn rhoi'r cyfle i chi ddatblygu'ch sgiliau ymhellach a gwella'ch rhagolygon gyrfa a chyflogaeth yn y diwydiant gwallt a harddwch. Mae ein cyrsiau i gyd yn paratoi dysgwyr ar gyfer byd gwaith drwy roi cyfle iddynt weithio o fewn amgylchedd gweithio realistig lle y gofynnir iddynt ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd allweddol.

GOFYNION MYNEDIAD Dewisir ymgeiswyr ar sail cyfweiliad. Mae angen sgiliau llythrennedd da. Mae angen L2 neu gyfwerth i symud ymlaen i L3. Nid yw symud ymlaen rhwng lefelau yn awtomatig.

VTCT L1 Diploma Trin Gwallt ALL

VTCT L2 Diploma Trin Gwallt ALL

VTCT L3 Diploma Trin Gwallt ALL

VTCT L3 Tystysgrif Gwaith Barbwr RhA

VTCT L2 Diploma mewn Technegau Harddwch Arbenigol ALL

VTCT L3 Diploma mewn Triniaethau Therapi Harddwch ALL

DILYNIANT Gall y cymwysterau hyn arwain at brentisiaethau neu gyflogaeth yn y diwydiant.

Astudiaethau Achos

SAMANTHA RICHARDS

Cwblhaodd Samantha Richards, dysgwr aeddfed, ei Thechnegau Arbenigwr Harddwch Lefel 2 ym mis Mehefin 2022. Yn ystod ei blwyddyn gyntaf o astudiaethau, dangosodd sgiliau trawiadol a phasiodd bob arholiad i safon uchel iawn. Mae Samantha bellach wedi cofrestru ar y rhaglen Lefel 3 ac yn parhau â'i hymroddiad i yrfa yn y diwydiant harddwch.



ANA HONARATO

Cwblhaodd Ana, sy'n ddysgwr MAT, gwrs trin gwallt Lefel 2 a 3 yn llwyddiannus ac mae bellach wedi symud ymlaen i gyflogaeth gyda Chanolfan Gwallt Ladybirds yn nhref Merthyr.

Ymunodd Ana â'r cwrs i wireddu ei breuddwyd o ddod yn steilydd Gwallt cymwysedig a gwella ei sgiliau blaenorol a ddatblygodd yn byw ym Mhortiwal. Cyflwynodd Ana sgiliau rhagorol drwy gydol ei chwrs a bu'n cystadlu yng nghystadleuaeth sgiliau'r DU i ennill lle yn y rownd ranbarthol. Yn ogystal â'r sgiliau galwedigaethol a ddatblygodd Ana, fe wnaeth hefyd wella ei sgiliau iaith Saesneg yn ystod ei chyfnod ar y cwrs.

Cyfleoedd Gyrfa

- › Triniwr gwallt
- › Therapydd Harddwch
- › Rôl Gwasanaethau Cwsmeriaid
- › Technegydd Ewinedd
- › Gwaith Barbwr



Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae ein cyrsiau Iechyd a Gofal yn cynnig llwybr ardderchog at waith o fewn lleoliad addysg neu iechyd a gofal cymdeithasol ochr yn ochr â'r cyfle i symud ymlaen i gyrsiau AU.

City and Guilds/CBAC Egwyddorion a Chyd-destunau Craidd Iechyd a Gofal Cymdeithasol

GOFYNION MYNEDIAD 4 TGAU gradd A*-D o leiaf yn cynnwys gradd C mewn Iaith Saesneg a/neu C mewn Mathemateg a chyfweliad ffurfiol.

City and Guilds/CBAC L3 Tystysgrif Iechyd a Gofal Cymdeithasol

GOFYNION MYNEDIAD Ceir mynediad i'r cwrs hwn trwy gyfweliad ac mae angen pum TGAU gradd A*-C o leiaf yn cynnwys Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth.

DILYNIANT Gallai dysgwyr symud ymlaen i gyrsiau addysg uwch mewn meysydd yn cynnwys: Bydwreigiaeth, Astudiaethau Heddlu, Therapi iaith a lleferydd, Seicoleg, Iechyd galwedigaethol, Gwaith Cymdeithasol a Nyrsio.

Astudiaeth Achos

ERNESTINA BERKOH

Dechreuodd Ernestina Berkoh, cyn ddysgwr Ysgol Uwchradd Afon Taf ar ei thaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Lefel 2. Symudodd ymlaen wedyn i Lefel 3, gan ennill DDM a llwyddo i sicrhau lle i astudio Bydwreigiaeth ym Mhrifysgol South Bank Llundain.

Astudiaeth Achos

GRACE DAVIES

Ers cwblhau y Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Derbyniodd Grace D*D*D* anhygoel a sicrhodd lle ar y cwrs Gradd Ymarfer Adran Lawfeddygol (ODP) ym Mhrifysgol De Cymru.

Mae'r Coleg Merthyr Tudful wedi ymuno mewn partneriaeth â'r Coleg Nyrsio Brenhinol i fod y coleg addysg bellach cyntaf i gynnig cynllun Cadetiaid Nyrsio Tywysog Cymru RCN i ddysgwyr yn y coleg sy'n dymuno dilyn gyrfa mewn nyrsio neu broffesiynau eraill yn y GIG.

Nod y cynllun yw ysbrydoli pobl ifanc, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig, i weithio ym maes iechyd a gofal trwy roi mynediad iddynt i gyfleoedd ar gyfer astudio academiaidd a phrofiad ymarferol yn y sector nyrsio ac iechyd.

Cyfleoedd Gyrfa

- ▶ Gweithiwr Cymdeithasol
- ▶ Nyrsio (Oedolion, Iechyd Meddwl a Phediatreg)
- ▶ Bydwreigiaeth
- ▶ Parafeddyg
- ▶ Ymarferydd Adran Lawfeddygol
- ▶ Seicoleg
- ▶ Therapydd Galwedigaethol
- ▶ Heddlu
- ▶ Swyddog Prawf
- ▶ Troseddeg
- ▶ Nyrsio Deintyddol



Y Dyniaethau, Gwyddorau Cymdeithasol ac Ieithoedd

Mae ein hadran Dyniaethau ac Ieithoedd yn darparu ystod eang o gyrsiau, yn cynnwys Hanes, Daearyddiaeth, Iaith a Llenyddiaeth Saesneg, Cymraeg, Ffrangeg ac Ieithoedd Ewropeaidd Modern.

CBAC Lefel UG/U2 Y Gyfraith

GOFYNION MYNEDIAD 5 TGAU gradd A*-C, yn cynnwys gradd B neu uwch mewn TGAU Saesneg.

CBAC Safon UG/Uwch Llenyddiaeth Saesneg

GOFYNION MYNEDIAD 5 gradd A*-C yn cynnwys Iaith Saesneg a Mathemateg, C ac uwch mewn Saesneg.

CBAC Safon UG/U2 Iaith a Llenyddiaeth Saesneg

GOFYNION MYNEDIAD 5 gradd A*-C yn cynnwys Iaith Saesneg a Mathemateg, C ac uwch mewn Saesneg.

CBAC Lefel UG/U2 Troseddeg

GOFYNION MYNEDIAD Bydd angen 5 TGAU gradd A*-C yn cynnwys Saesneg.

CBAC Lefel UG/U2 Hanes

GOFYNION MYNEDIAD 5 TGAU gradd A*-C o leiaf, gyda gradd B mewn Hanes neu Saesneg yn ddymunol iawn.

CBAC Lefel UG/U2 Astudiaethau Crefyddol

GOFYNION MYNEDIAD 5 TGAU gradd A*-C yn cynnwys Iaith Saesneg. Byddai gradd B neu uwch mewn Iaith Saesneg yn ddymunol iawn.

CBAC Lefel UG/U2 Cymraeg Ail Iaith

GOFYNION MYNEDIAD 5 TGAU gradd A*-C yn cynnwys Cymraeg gradd C neu uwch mewn Iaith Saesneg a gradd B yn y cwrs TGAU Cymraeg llawn neu radd A yn y cwrs Cymraeg byr.

CBAC Lefel UG/U2 Seicoleg

GOFYNION MYNEDIAD 5 TGAU gradd A*-C yn cynnwys gradd B neu uwch mewn Iaith neu Llenyddiaeth Saesneg ac mae gradd C mewn Mathemateg yn ddymunol.



CBAC Lefel UG/U2 Daearyddiaeth

GOFYNION MYNEDIAD 5 TGAU gradd A*-C yn cynnwys Iaith Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Mae TGAU Daearyddiaeth yn ddymunol ond nid yw'n hanfodol - fodd bynnag, mae hyn yn ôl disgrisiwn y tiwtor. Os yw TGAU Daearyddiaeth wedi'i hastudio ar Lefel TGAU mae angen gradd C neu uwch.

CBAC Lefel UG/U2 Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

GOFYNION MYNEDIAD 5 TGAU gradd A*-C o leiaf, gyda gradd B mewn Hanes neu Saesneg.

CBAC Lefel UG/U2 Cymdeithaseg


GOFYNION MYNEDIAD 5 TGAU gradd A*-C yn cynnwys gradd B neu uwch mewn Iaith Saesneg neu Llenyddiaeth Saesneg. Nid oes angen i chi fod wedi astudio Cymdeithaseg ar gyfer TGAU.

DILYNIANT Gall cwblhau unrhyw un o'r pynciau Safon Uwch hyn yn llwyddiannus eich helpu i symud ymlaen i amrywiaeth eang o gyrsiau lefel prifysgol.

Astudiaethau Achos

JOANNA FOLEY

Enillodd cyn-ddisgybl Esgob Hedley a'r dysgwr Dyniaethau Joanna Foley B mewn Cymdeithaseg a 2 A mewn Astudiaethau Crefyddol a Seicoleg. Mae Joanna wedi llwyddo i gael lle ym Mhrifysgol Abertawe i astudio Nyrsio Plant, gan ddweud "Er gwaethaf dwy flynedd anodd, rwyf wedi fy syfrdanu ac yn hynod ddolchgar am y gefnogaeth a gefais gan y coleg, yn enwedig gan fy nhwtoriaid cwrs a barhaodd i fod yn frwdfrydig ac fy annog, pan oeddwn ar adegau yn amau fy hun. Rwy'n llawn cyffro i fod yn dechrau ar Radd Nyrsio Plant ym Mhrifysgol Abertawe ym mis Medi ac edrychaf ymlaen at yr hyn sydd i'w ddod yn y dyfodol."



HOLLIE MORGAN

Cyflawnodd y cyn-ddisgybl Idris Davies A mewn Hanes, C yn y Gyfraith, a 2 B mewn Cymdeithaseg a Seicoleg. Dywedodd Hollie, sydd wedi ennill lle ym Mhrifysgol Newcastle i astudio'r Gyfraith, "Ers ymuno â'r coleg ym mis

Medi 2020, rwyf wedi ei weld yn amgylchedd croesawgar, cynhwysol a meithringar i ddysgu ynddo. Mae staff y coleg wedi darparu cymorth academiaidd a llesiant i bob dysgwr. Rwy'n edrych ymlaen yn awr at symud ymlaen i astudio'r Gyfraith yn y brifysgol."

MEGAN HARRIMAN

Astudiodd Megan Harriman, cyn-fyfyrwraig Safon Uwch y Gyfraith, yng Ngholeg Merthyr Tudful yn ystod 2017-2019. Llwyddodd i ennill gradd A ac ers hynny mae wedi graddio gyda gradd LLB yn y Gyfraith o Brifysgol Caerdydd. Talodd Megan deyrnged i'w thiwtor y Gyfraith "Roedd fy athrawes, Lowri Bracey, yn rhagorol am gefnogi myfyrwyr i gyflawni uwchlaw a thu hwnt i'w disgwyliadau tra'n gwneud dosbarthiadau yn bleserus ac yn hwyl. Cynigiwyd amrywiaeth o gyfleoedd diddorol, ymgysylltiol a difyr i mi fy hun a'm cyd-ddisgyblion i ehangu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o broffesiwn y gyfraith. Roedd cymryd rhan yng Nghystadlu Ffug Dreialon Smart Law yn fy mlwyddyn A2 yn gatalydd yn fy mhenderfyniad i ddilyn gyrfa fel Bargyfreithiwr. Rwy'n argymhell yn fawr eich bod yn ymgymryd â'r Lefel A hwn yn Y Coleg Merthyr Tudful – ni chewch eich siomi!"



Cyfleoedd Gyrfa

- » Seicolegydd Ymddygiad
- » Seicolegydd Fforensig
- » Addysgu
- » Swyddog Prawf
- » Swyddog yr Heddlu
- » Troseddegydd
- » Curadur Amgueddfa
- » Newyddiadurwr
- » Swyddog Ymchwil Cymdeithasol
- » Ysgrifennwr copi



Technoleg Cerbydau Modur

IMI yw'r corff proffesiynol ar gyfer pobl sy'n cael eu cyflogi neu sy'n chwilio am waith yn y diwydiant cerbydau modur. Fel y corff dyfarnu blaenllaw ar gyfer y diwydiant manwerthu cerbydau modur, mae'r IMI yn cynnig ystod o Gymwysterau Galwedigaethol Cysylltiedig (VRQ), Cymwysterau Galwedigaethol Gymwys (VCQ) neu Ddiplomâu. Mae'r cyrsiau hyn yn darparu'r ystod ehangaf o wybodaeth dechnegol, sydd ei hangen er mwyn dod yn dechnegydd cerbydau modur medrus, yn brif dechnegydd neu i ganiatáu symud ymlaen i addysg uwch. Mae cymhwyster addas ar gael ar gyfer ymgeiswyr ar bob lefel, o gyrsiau mynediad Lefel 1 i gyrsiau technegydd Lefel 3.

CG L1 Diploma Systemau Cerbydau ALL

GOFYNION MYNEDIAD TGAU gradd D-F mewn Saesneg, Mathemateg a phwnc sy'n seiliedig ar wyddoniaeth.

IMIAL L2 Diploma mewn Egwyddorion Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau Ysgafn ALL

GOFYNION MYNEDIAD 4 TGAU gradd A*-D neu uwch, yn ddymunol iawn mewn Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth neu gymhwyster Cerbydau Modur Lefel 1.

IMIAL L2 Diploma mewn Egwyddorion Gosod Cerbydau

GOFYNION MYNEDIAD 3 TGAU gradd A*-D neu uwch, yn ddymunol iawn mewn Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth neu gymhwyster Cerbydau Modur Lefel 1.

IMIAL L3 Diploma mewn Egwyddorion Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau Ysgafn ALL

GOFYNION MYNEDIAD Cwblhau cymhwyster Lefel 2 priodol yn llwyddiannus mewn Technoleg Cerbydau.

DILYNIANT Gall dysgwyr symud ymlaen i brentisiaeth neu gyflogaeth amser llawn.

Fel isadran rydym yn parhau i feithrin ein perthynas ag Aston Martin a sectorau a chyflenwyr blaenllaw eraill yn y diwydiant cerbydau modur. Bydd cyfleoedd yn codi i ddysgwyr sydd â diddordeb mewn ennill cymwysterau ychwanegol mewn cyrsiau Cerbydau Trydanol a Hybrid.

Cyfleoedd Gyrfa

- » Technegydd Cerbydau Modur
- » Technolegydd cerbydau trydan
- » Peiriannydd Cerbydau Modur
- » Technegydd Hybrid





Gwyddoniaeth a Mathemateg

Bydd cymhwyster Safon Uwch neu BTEC mewn Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg neu Fathemateg yn rhoi hwb i chi o ran llawer o wahanol lwybrau gyrfa. Mae yna gyfleoedd di-ri mewn sawl maes, ac mae pob un ohonynt yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl.

CBAC Lefel UG/U2 Bioleg

GOFYNION MYNEDIAD 5 TGAU gradd A-C o leiaf, yn cynnwys gradd B o leiaf mewn Mathemateg a Saesneg, BB mewn gwyddoniaeth ddwbl neu BBB mewn gwyddoniaeth driphlyg.

CBAC Lefel UG/U2 Cemeg

GOFYNION MYNEDIAD 5 TGAU gradd A-C o leiaf, yn cynnwys gradd B o leiaf mewn Mathemateg (Haen Uwch fel arfer), BB mewn gwyddoniaeth ddwbl neu BBB mewn gwyddoniaeth driphlyg.

CBAC Lefel UG/U2 Ffiseg

GOFYNION MYNEDIAD 5 TGAU gradd A-C o leiaf, yn cynnwys gradd B o leiaf mewn Mathemateg (Haen Uwch fel arfer), BB mewn gwyddoniaeth ddwbl neu BBB mewn gwyddoniaeth driphlyg.

CBAC Lefel UG/U2 Mathemateg

GOFYNION MYNEDIAD 5 Ella Evans achieved a distinction in her BTEC L3 National Foundation Diploma in Uniformed Protective Services course. Commenting on her experience, Ella stated gradd A*-C o leiaf yn cynnwys B o leiaf mewn TGAU Mathemateg.

CBAC Lefel UG/U2 Mathemateg Bellach

GOFYNION MYNEDIAD 8 gradd A* i C o leiaf yn cynnwys A o leiaf mewn TGAU Mathemateg.

CBAC Lefel UG/U2 Tystysgrif mewn Gwyddor Feddygol

GOFYNION MYNEDIAD 5 TGAU gradd A-C o leiaf, yn cynnwys C o leiaf mewn Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth.

DILYNIANT Gall cwblhau unrhyw un o'r pynciau Safon Uwch hyn yn llwyddiannus eich helpu i symud ymlaen i amrywiaeth eang o gyrfa lefel prifysgol.

Astudiaethau Achos

IEUAN CHAMBERLAIN

Enillodd y cyn-ddisgybl Afon Taf A mewn Mathemateg Bellach a 2 A* mewn Cyfrifiadureg a Ffiseg. Mae Ieuan wedi llwyddo i gael y canlyniadau sydd eu hangen arno i symud ymlaen i astudio Ffiseg yn y Brifysgol a dywedodd, "Rwyf wedi mwynhau fy amser yn astudio Safon Uwch yn Y Coleg Merthyr Tudful yn fawr. Dros y 2 flynedd ddiwethaf rwyf wedi cael fy nghefnogi gan staff y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth, yn enwedig trwy gydol tymor yr arholiadau. Bellach mae gennyf y graddau sydd eu hangen arnaf i ddechrau gradd a gyrfa ddilynol mewn Ffiseg."



ERIN MITCHELL

Llwyddodd Erin Mitchell, dysgwraig Ysgol Uwchradd Aberhonddu, i ennill A* rhagorol mewn Bioleg, A mewn Cemeg ac A mewn Hanes. Wrth sôn am ei phrofiad yn y coleg, dywedodd Erin "O ysgrifennu fy natganiad personol i'r broses gyfweld ar gyfer milfeddygaeth, rwyf

wedi cael cymorth diddiwedd gan y coleg. Rwy'n arbennig o ddiolchgar i Carolyn sydd wedi fy nghefnogi bob cam o'r ffordd. Mae fy nhiwtoriaid bob amser wedi mynd yr ail filltir i fy nghynorthwyo gyda fy astudiaethau, allwn i ddim bod yn hapusach!" Mae Erin bellach yn astudio Milfeddygaeth ym Mhrifysgol Nottingham.




BTEC L3 Diploma Sylfaen Cenedlaethol mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol BI1 ALL

GOFYNION MYNEDIAD 5 TGAU gradd C neu uwch yn cynnwys C o leiaf mewn Gwyddoniaeth (neu ragoriaeth mewn Diploma Lefel 2 mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol) ac C mewn Saesneg a Mathemateg.

DILYNIANT Mae'r gwyddorau cymhwysol yn cynnig amrywiaeth eang o yrfaoedd, megis: Gwyddonydd ffensiig, Ffisiotherapydd, Nyrsio, Gwaith cymdeithasol, Ymchwilydd cyffuriau, technegydd ffiseg feddygol, technegydd gwyddoniaeth, Chwaraeon, a llawer mwy. Bydd eich BTEC yn hogi eich sgiliau ar gyfer cyflogaeth neu astudiaeth bellach.

Cyfleoedd Gyrfa

- › Gwyddonydd
- › Fferylllydd
- › Biocemegydd
- › Milfeddyg
- › Syrfêwr Meintiau
- › Meddyg
- › Ymchwilio a dadansoddi ffensiig
- › Peirianeg Sifil/Fecanyddol



Chwaraeon

Mae'r sector chwaraeon wedi bod yn tyfu ers blyneddau lawer ac mae'r gyfradd twf mor uchel ag erioed. Mae swyddi'n bodoli mewn hyfforddi, gweinyddu a rheoli, cyngor ar ffitrwydd a gwyddor chwaraeon. Bydd ein hamrywiaeth gynhwysfawr o gyrsiau, ynghyd â'n henw da am ragoriaeth mewn chwaraeon a'n hymrwymiad i ddarparu cyfleoedd chwaraeon rhagorol, yn sicrhau eich bod chi'n derbyn yr addysg chwaraeon orau gyda ni.

BTEC L2 Tystysgrif Estynedig Gyntaf mewn Chwaraeon All

GOFYNION MYNEDIAD 4 TGAU gradd A*-D yn ddymunol.

BTEC L3 Diploma Sylfaen mewn Hyfforddi a Datblygu Chwaraeon

GOFYNION MYNEDIAD Mae angen cyfweiliadau, 5 TGAU gradd A*-C o leiaf.

BTEC L3 Tystysgrif Estynedig Genedlaethol mewn Chwaraeon a Gwyddor Ffitrwydd Safon Uwch

GOFYNION MYNEDIAD 5 TGAU gradd A*-C o leiaf, yn cynnwys Mathemateg a Saesneg.

L2 Hyfforddwr Ffitrwydd RhA

GOFYNION MYNEDIAD Rhaid i bob ymgeisydd fod yn 19 oed neu drosodd, gyda Phrofiad Campfa a diddordeb cyffredinol mewn Ymarfer Corff a Ffitrwydd.



L3 Hyfforddwr Personol RhA

GOFYNION MYNEDIAD Mae angen i ymgeiswyr fod wedi cwblhau cwrs L2 Hyfforddwr Ffitrwydd, a bod yn 19 oed neu drosodd.

DILYNIANT Mae'r cyrsiau hyn yn darparu'r wybodaeth, y dealltwriaeth a'r sgiliau i fyfyrwyr sy'n dymuno astudio am raddau neu raddau Sylfaen sy'n gysylltiedig â Chwaraeon, neu'r rhai sy'n dymuno cael cyflogaeth amser llawn yn y sector Chwaraeon.

Mae CDP yn cwmpasu ein cyrsiau Hyfforddwr Ffitrwydd a Hyfforddwr Personol, gweler y dudalen CDP am fanylion pellach.

Cyfleoedd Gyrfa

- Hyfforddi Chwaraeon
- Hyfforddwr Ffitrwydd



Setup

Gan weithio mewn partneriaeth ag Active Merthyr Tydfil, mae'r rhaglen yn darparu rhaglen addysg a hyfforddiant hyfforddwyr unigryw ac effeithiol. Gall dysgwyr gyflawni eu dyheadau academaidd, gan eu helpu i symud ymlaen yn llwyddiannus i gyflogaeth, prentisiaeth neu astudiaeth lefel uwch ym maes Chwaraeon a Hamdden Egnïol.

Mae'r rhaglen, sef y gyntaf o'i bath yn y rhanbarth lleol, yn darparu llinyn 'cyflogadwydd' newydd sbon i gwrs BTEC Lefel 3 Hyfforddiant Chwaraeon presennol y coleg. Mae'n rhoi'r gwerth ychwanegol a'r cymorth sydd ei hangen ar ein dysgwyr i'w helpu i sefyll allan a sicrhau cyflogaeth neu leoedd prifysgol yn y dyfodol.

Ein tri llinyn allweddol:

- Ymwybyddiaeth o'r Diwydiant – Yn cynnig cipolwg ar sut mae'r Diwydiant Chwaraeon a Hamdden Egnïol yn gweithio, a phwysigrwydd mentrau a arweinir gan y llywodraeth i lywio eu gyrfa.
- Cymwysterau Ychwanegol – rhoi'r cyfle i ddysgwyr ennill cymwysterau penodol i'r diwydiant i'w cychwyn ar eu taith i yrfa gydol oes yn y Diwydiant Chwaraeon a Hamdden Egnïol.
- Lleoliad Galwedigaethol - Darparu lleoliadau o ansawdd uchel i ddysgwyr ddatblygu sgiliau a ddysgwyd a chael profiad amhrisiadwy yn y diwydiant.

Mae'r rhaglen yn rhoi pwyslais ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dysgwyr o'r diwydiant a'r sector chwaraeon trwy ddarlithoedd, sgysiau gan wahoddedigion, ymweliadau, lleoliadau a gweithdai.

Bydd ein dysgwyr yn cael y cyfle i ymgymryd â lleoliadau cymunedol o ansawdd uchel trwy rwydwaith darparwyr Active Merthyr Tydfil, gan roi'r cyfle iddynt roi'r theori, y wybodaeth, a'r sgiliau y maent yn eu hennill yn yr ystafell ddosbarth ar waith, tra ar yr un pryd yn ehangu eu dealltwriaeth o'r gyrfaoedd sydd ar gael yn y sector hwn.

Bydd dysgwyr SETUP yn gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau a fydd yn eu galluogi nid yn unig i ennill cymwysterau a phrofiad, ond hefyd i helpu i lunio eu dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys Active Merthyr, ysgolion cynradd ac uwchradd lleol, grwpiau chwaraeon cymunedol, campfeydd lleol a Chyrrff Llywodraethu Cenedlaethol.

Bydd dysgwyr hefyd yn cael y cyfle i ymgymryd â chymwysterau ychwanegol i ategu ac ychwanegu at eu cymhwyster BTEC Lefel 3, gan gynnwys Arweinwyr Chwaraeon, Cymorth Cyntaf, Diogelu, Hyfforddiant Cynhwysiant Anabledd, Llythrennedd Corfforol, Arweinwyr CBDC, Arweinwyr Tag URC a llawer mwy.

Astudiaeth Achos

ERIN MCNULTY

Cafodd cyn-ddisgybl Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley Erin ganlyniadau galwedigaethol rhagorol, gan ennill Rhagoriaeth yn ei chwrs Hyfforddi a Datblygu Chwaraeon Diploma Sylfaen Cenedlaethol BTEC L3. "Yr hyn rwy'n ei fwynhau fwyaf am fy nghwrs yw'r cyfleoedd y mae wedi'u darparu i mi ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol. Rwyf wedi cwblhau amrywiaeth o gymwysterau ychwanegol fel Cymorth Cyntaf a gwahanol Ddyfarniadau Hyfforddi Chwaraeon. Byddwn yn dweud bod y rhaglen SETUP newydd sy'n ymwneud â'm cwrs yn y coleg wedi fy helpu i ennill llawer o hunanhyder, yn ogystal â lleoliadau a phrofiad."



Gwasanaethau Cyhoeddus ac Antur Awyr Agored

Mae'r cyrsiau hyn wedi'u cynllunio ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno dilyn gyrfa yn y gwasanaethau gwisg unffurf. Maent yn darparu'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n berthnasol i gyflogaeth yng ngwasanaethau'r heddlu, tân, carchardai ac arfog. Bydd amrywiaeth dda o weithgareddau a phrofiadau yn cael eu darparu gan yr Heddlu, y Fyddin, y Llynges, yr Awyrlu Brenhinol, y Gwasanaeth Tân a'r Gwasanaeth Ieuencid. Bydd y gweithgareddau hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth i chi o'r gwaith y maent yn ei wneud a sut brofiad fyddai bod yn rhan o'u sefydliad. Bydd gennych hefyd fynediad i Ystafell Hydra Minerva Prifysgol De Cymru i gael profiad o reoli digwyddiadau mawr.

BTEC L2 Diploma mewn Paratoi ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus

GOFYNION MYNEDIAD Rhaid bod gan fyfyrwyr awydd i weithio yn y gwasanaethau cyhoeddus. Mae 4 TGAU gradd A*-D yn ddymunol.

BTEC L3 Diploma Sylfaen Cenedlaethol mewn Gwasanaethau Amddiffynol Gwisg Unffurf ALL

GOFYNION MYNEDIAD Mae mynediad trwy gyfweiliad: Isafswm o 5 TGAU gradd A*-C.

DILYNIANT Mae'r cwrs yn darparu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno ymgymryd â gyrfa yn y gwasanaethau cyhoeddus neu'r lluoedd arfog. Mae llawer o fyfyrwyr yn llwyddo i fynd ymlaen i'r brifysgol i astudio Troseddeg, Gwasanaethau Cyhoeddus, Gwaith Ieuencid neu Astudiaethau'r Heddlu neu'n symud ymlaen yn uniongyrchol i'r Gwasanaethau Cyhoeddus Gwisg Unffurf.

Astudiaeth Achos

MACIEJ ZATORSKI

Cyflawnodd Maciej Zatorski, cyn-ddisgybl yr Esgob Hedley ragoriaeth serenog driphlyg mewn Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae Maciej bellach wedi symud ymlaen i astudio Plismona Proffesiynol ym Mhrifysgol De Cymru.

Astudiaeth Achos

ELLA EVANS

Enillodd Ella Evans ragoriaeth yn ei chwr Diploma Sylfaen Cenedlaethol BTEC Lefel 3 mewn Gwasanaethau Amddiffynol Gwisg Unffurf. Wrth sôn am ei phrofiad, dywedodd Ella "Rwyf wedi mwynhau astudio Gwasanaethau Cyhoeddus yn fawr dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae pob pwnc rydw i wedi'i astudio wedi bod o ddiddordeb i mi, yn enwedig yr uned awyr agored. Mae'r gefnogaeth a gefais gan y coleg wedi fy helpu i gyflawni fy nodau. Edrychaf ymlaen at gwblhau fy mlwyddyn olaf o astudiaethau."

Cyfleoedd Gyrfa

Gwasanaethau Cyhoeddus mewn Lifrai, gan gynnwys:

- › Heddlu
- › Gwasanaeth Tân
- › Lluoedd Arfog
- › Hyfforddwr Awyr Agored



Teithio a Thwristiaeth

Am deithio'r byd a bod yn rhan o ddiwydiant cyffrous a bywiog? Teithio a Thwristiaeth yw un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf yn y DU a thramor, ac mae'r diwydiant hwn yn cynnig cyfleoedd gyrfa cyffrous a llawn boddhad.

BTEC L2 Tystysgrif Estynedig mewn Teithio a Thwristiaeth LIA

GOFYNION MYNEDIAD 4 TGAU gradd A*-D.

BTEC L3 Diploma Sylfaen Cenedlaethol Teithio a Thwristiaeth LIA

GOFYNION MYNEDIAD Fel arfer bydd disgwyl i ymgeiswyr feddu ar isafswm o 5 TGAU gradd A*-C yn cynnwys Iaith Saesneg a Mathemateg neu gyfwerth.

DILYNIANT Bydd cwblhau'r cyrsiau hyn yn llwyddiannus yn eich galluogi i symud ymlaen i Radd Sylfaen y coleg mewn Busnes, neu radd cysylltiedig â theithio mewn sefydliad Addysg Uwch arall, neu fynd yn uniongyrchol i gyflogaeth yn y diwydiant teithio, lletygarwch neu hamdden.

Astudiaeth Achos

ETHAN SCRIVEN

Enillodd cyn-ddisgybl Pen-Y-Dre Ethan Scriven ragoriaeth serenog driphlyg mewn Teithio a Thwristiaeth. Wrth sôn am ei brofiad, meddai Ethan, "Rwyf wedi fy synnu gan y gefnogaeth a gefais ers astudio yn y coleg. Gyda unrhyw bryderon neu broblemau sydd gennyf, mae aelod o staff bob amser wrth law i gynnig cyngor. Ers cwblhau fy nghwrs, rwyf bellach wedi sicrhau lle ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i astudio Rheolaeth Twristiaeth".



Cyfleoedd Gyrfa

- › Asiant Teithio
- › Cynghorydd Teithio
- › Criw awyrennau
- › Cydlynnydd Lletygarwch a Digwyddiadau



Mynediad i AU

Mae cyrsiau mynediad wedi'u cynllunio ar gyfer y rhai sydd â phrofiad bywyd, sy'n golygu eu bod fel arfer yn addas ar gyfer y rhai dros 19 oed.

Agored Diploma L2 mewn Sgiliau ar gyfer Astudiaeth Bellach ALL

GOFYNION MYNEDIAD Nid oes angen cymwysterau ffurfiol. Mae pob darpar fyfyrwr yn cael ei gyfweld a'i asesu cyn y cynigir lle.

Agored L3 Diploma Mynediad i Addysg Uwch Gofal Iechyd ALL

GOFYNION MYNEDIAD Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol, rydym yn ystyried pob cais unigol yn llawn ac yn ofalus. Rydym hefyd yn disgwyl gweld sgiliau rhyngberonol da, ymrwymiad i'r maes astudiaeth a brwdfrydedd a dealltwriaeth ynghylch eich dewis lwybr gyrfa.

DILYNIANT Bydd cwblhau'r cyrsiau hyn yn llwyddiannus yn galluogi dysgwyr i symud ymlaen yn llwyddiannus i gwrs gradd perthnasol ac yna i yrfa megis: Nyrsio, Bydwreigiaeth, Ymarferydd Adran Llawdriniaeth, Gwaith Cymdeithasol, Iechyd Galwedigaethol, Podiatreg, Radiograffeg.

Agored L3 Diploma Mynediad i Addysg Uwch Y Dyniaethau ALL

GOFYNION MYNEDIAD Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol, caiff pob darpar fyfyrwr ei gyfweld a'i asesu cyn cael cynnig lle.

DILYNIANT Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, bydd myfyrwyr yn ennill y cymhwyster Diploma Mynediad i AU. Mae hwn yn gymhwyster cydnabyddedig cenedlaethol a dderbynnir ar gyfer mynediad i Gyrsiau Addysg Uwch.

Astudiaethau Achos

DYLAN YOUNG MURRAY

Trwy waith caled a phenderfyniad llwyddodd Dylan i ennill 45 rhagoriaeth (y nifer mwyaf posibl o ragoriaethau). O ganlyniad i'r cyflawniad anhygoel hwn, mae Dylan wedi symud ymlaen i astudio ym Mhrifysgol Abertawe i astudio BSc (Anrh) Gwyddor Barafeddygol.



JOSEPH GOUGH

Cyflawnodd y dysgwr aeddfed Joseph Gough 39 rhagoriaeth anhygoel yn ei gwrs Mynediad i'r Dyniaethau. Dychwelodd Joe i addysg heb astudio unrhyw Safon Uwch, fodd bynnag, i gyflawni ei nodau o fynd i'r brifysgol byddai'n mynychu'r coleg yn ystod ei ddyddiau i ffwrdd i ddefnyddio cyfleusterau'r coleg. Mae Joe wedi llwyddo i gael lle ym Mhrifysgol Caerdydd i astudio Newyddiaduraeth, Cyfathrebu a Gwleidyddiaeth.

Cyrsiau AU

Mae gan Goleg Merthyr Tudful bartneriaeth unigryw â Phrifysgol De Cymru i ddarparu ystod gynhwysfawr o gyrsiau Addysg Uwch yn eich milltir sgwâr! Mae'r fenter flaengar hon yn rhoi'r cyfle i chi astudio yn lleol yn Y Coleg Merthyr Tudful ac ennill cymhwyster a ddyfernir gan Brifysgol De Cymru.

Gradd Sylfaen Ymarfer Celf ALL

GOFYNION MYNEDIAD Os gallwch ddangos tystiolaeth portffolio o ddiddordeb mewn celf neu sgiliau perthnasol eraill neu ddysgu blaenorol, ni fydd angen cymwysterau ffurfiol arnoch ond fe'ch gwahoddir i gyfweliad.

Gradd BA Anrh Ymarfer Celf ALL

GOFYNION MYNEDIAD Cwblhau Gradd Sylfaen neu gwblhau hyd at Lefel 5 mewn Celf neu ddisgyblaeth debyg.

Gradd Sylfaen Rheolaeth Busnes ALL/RhA

GOFYNION MYNEDIAD Rhaid i bob dysgwr dan 21 oed ennill cymhwyster BTEC Lefel 3 neu ddwy Safon Uwch. Bydd y rhai 21 a throsodd yn amodol ar gyfweliad.

Gradd B (Anrh) Rheolaeth Busnes ALL/RhA

GOFYNION MYNEDIAD Wedi cyflawni Gradd Sylfaen ond nid o reidrwydd mewn Busnes.

Gradd Sylfaen Seicoleg ALL

GOFYNION MYNEDIAD Fel rheol bydd yn rhaid eich bod yn meddu ar un o'r canlynol: 1. Cymhwyster galwedigaethol BTEC Lefel 3 mewn maes priodol 2. Llwyddiant o leiaf mewn Safon Uwch mewn maes priodol 3. Cymhwyster galwedigaethol Lefel 3 amgen mewn maes priodol neu 4.

HNC mewn Cyfrifiadura ALL

GOFYNION MYNEDIAD Diploma Cenedlaethol BTEC mewn pwnc perthnasol neu Ddau bwnc Safon Uwch, gydag un o leiaf mewn pwnc perthnasol. Dylai fod gan fyfyrwr hefyd bedwar TGAU o leiaf yn cynnwys Mathemateg gradd C ac uwch.

Mae croeso i fyfyrwyr aeddfed ar y cwrs, rydym yn ystyried achrediad dysgu blaenorol, dysgu seiliedig ar waith a dyheadau gyrfa ymgeiswyr.

Gradd Sylfaen mewn E-chwaraeon ALL

GOFYNION MYNEDIAD Diploma Cenedlaethol Estynedig BTEC mewn pwnc perthnasol neu Ddau bwnc Safon Uwch, gydag un o leiaf mewn pwnc perthnasol. Mae croeso i fyfyrwyr aeddfed ar y cwrs, rydym yn ystyried achrediad dysgu blaenorol, dysgu seiliedig ar waith a dyheadau gyrfa ymgeiswyr.

Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg i Raddedigion (TBAR) ALL

GOFYNION MYNEDIAD Ar gael i raddedigion a'r rhai nad ydynt yn raddedigion. Mae TGAU gradd C neu uwch mewn Mathemateg ac Iaith Saesneg yn ddymunol. Angen gwiriad DBS.

Ewch i'n gwefan am ragor o wybodaeth.

University of
South Wales
Prifysgol
De Cymru

The College Merthyr Tydfil is
part of the University of South
Wales Group
Y Coleg Merthyr Tudful rhan
o Grŵp Prifysgol De Cymru

Astudiaethau Achos

CERYS-MARIE RYAN

Dechreuodd y dysgwr presennol Cerys-Marie Ryan yn y coleg fel dysgwr Teithio a Thwristiaeth. Gweithiodd Cerys yn galed iawn i gwblhau'r cwrs a symud ymlaen i'n Gradd Sylfaen Busnes, gan raddio gyda rhagoriaeth gyffredinol.

Meddai Cerys "Rwyf ar hyn o bryd yn astudio tuag at fy BA Anrhydedd mewn Rheolaeth Busnes yn y coleg. Mae astudio AU yn heriol ond hefyd yn werth chweil, gan fy mod yn gallu cwblhau fy astudiaethau a chynnal cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Mae'r tiwtoriaid a'r staff yn gefnogol iawn ac ar gael bob amser i roi cyngor ac arweiniad pan fo angen. Trwy waith caled ac ymroddiad, rwyf wedi bod yn ddigon ffodus i gael y cyfle i weithio o fewn yr adran Cofnodion Myfyrwyr yn y coleg ochr yn ochr â fy astudiaethau.



SARAH MCINNES

Gradd Sylfaen Seicoleg

Dyweddodd Sarah McInnes, dysgwr hŷn, "Ers mynd yn ôl i addysg amser llawn roedd y radd sylfaen yn ffordd wych o adeiladu fy hyder a chymryd y camau cyntaf tuag at fynd yn ôl i fydd addysg ar ôl blynyddoedd yn y gweithlu. Rwyf wedi dysgu sgiliau newydd, wedi cyfarfod â phobl wych ac wedi mwynhau pob eiliad o'r profiad dysgu. Mae astudio'r radd sylfaen wedi fy helpu i fagu hyder yn fy ngalluoedd fy hun, sylweddoli fy angerdd am y pwnc a rhoi cyfleoedd cyffrous i mi ar gyfer fy nyfodol". Ers hynny mae Sarah wedi cymhwyso gyda Gradd anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Seicoleg ac wedi ennill Gwobr Deon Prifysgol De Cymru am gyflawniad eithriadol a nodedig.



Astudiaethau Achos

CALLUM HULBERT

Soniodd y cyn ddysgwr TBAR, Callum Hulbert, am ei brofiad yn Y Coleg Merthyr Tudful "Rwyf wedi bod yn ffodus iawn i gael profiad o'r coleg o safbwynt myfyriwr a darlithydd. O'm cyfnod fel myfyriwr y cefais ddealltwriaeth glir o safonau a gwerthoedd y coleg wnaeth fy ysbrydoli i ddychwelyd a throsglwyddo'r safonau hyn i'r genhedlaeth nesaf o ddysgwyr. Defnyddiais y cymwysterau a enillais yn Y Coleg Merthyr Tudful i symud ymlaen i fydd gwaith lle deuthum yn berson medrus llwyddiannus o fewn y sector gwaith coed. Roedd hyn yn fy ngalluogi i fireinio fy sgiliau ac ennill lefel uwch o aeddfedrwydd. Ar ôl cael profiad dysgu cadarnhaol yn y coleg, roeddwn bob amser wedi ystyried hwn fel sefydliad y gallwn weld dyfodol ynddo. Rhoddodd hyn fi ar hyd y llwybr o gofrestru ar y PcET a fy ngyrfa addysgu, cefais groeso ar unwaith yn yr adran AMBE a theimlais yn ychwanegiad gwerthfawr at y cwrs PcET. Y gefnogaeth

barhaus a'r perthnasoedd gwaith o fewn y coleg a helpodd fi i gyrraedd y lefel o lwyddiant yr wyf wedi'i chyflawni hyd yma. Galluogodd y cwrs fi i ehangu fy ngwybodaeth am ystod o strategaethau addysgu a'r disgywiliadau uchel y byddaf yn ymdrechu i'w cyflawni. Er mwyn talu'n ôl am y cymorth a gefais yn ystod fy nghwrs rwyf bellach wedi gallu rhannu fy arferion addysgu da. Cefais fy enwebu i gyflwyno sesiwn DPP i'm cydweithwyr i'w hysbrydoli i ddefnyddio ffurfiau newydd o dechnoleg i wella'r profiad dysgu. Mae'r coleg yn parhau i gydnabod fy nghyflawniadau trwy ddyfarnu tystysgrif i mi am berfformiad rhagorol yn ystod blwyddyn academaidd 2021-2022, a buddsoddi ymhellach yn fy natblygiad proffesiynol trwy fy nghofrestru ar y Rhaglen Athrawon Eithriadol, lle byddaf yn gallu parhau â'm twf personol fy hun a gwella fy nealltwriaeth o'r amgylchedd addysgol".





Ymddiriedolaeth Panasonic Gwobr Peirianwyr y Dyfodol

Mae'r coleg yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Academi Beiranneg Frenhinol ac Ymddiriedolaeth Panasonic i ddatblygu 'Prosiect Partneriaeth Peirianeg Cymoedd Cymru', menter a gynlluniwyd i sefydlu rhaglen gymorth yn ardal Blaenau Gwent i ymgorffori newid cynaliadwy, systemig mewn addysg peirianeg yn Ne Cymru ac i annog mwy o bobl ifanc yn y rhanbarth i astudio pynciau STEM a'u paratoi ar gyfer gyrfaedd posibl fel technegwyr a pheirianwyr. Fel rhan o'r prosiect hwn, rydym yn cynnig 10 bwrsari o £2,000 yr un i ddysgwyr sy'n dod o ysgolion Merthyr Tudful sy'n dymuno symud ymlaen i yrfa mewn Peirianeg ac yn dewis astudio pynciau a fydd yn eu helpu i fynd ar drywydd yr yrfa hon.

Mae ceisiadau am y Bwrsariaethau yn agor ddiwedd Ionawr bob blwyddyn. Bydd eich athrawon STEM yn yr ysgol yn rhoi gwybod i chi pan fyddant ar gael ac yn eich cefnogi i gwblhau eich cais.

**Am ragor o wybodaeth am y fwrsariaeth, cysylltwch â
Shelby Berry ar s.berry@merthyr.ac.uk**

Sut fydd Gwobr Peirianeg y Dyfodol Ymddiriedolaeth Panasonic o fudd i mi?

Bydd dod yn PTFEA yn y coleg yn eich galluogi i:

- › Cael gliniadur gan Panasonic i'ch cefnogi yn ystod eich astudiaethau yn y coleg
- › Cymryd rhan mewn sesiynau ymgysylltu â chyflogwyr allweddol, prosiectau a gweithgareddau gyda chyflogwyr mawr fel Panasonic, Nexperia



Cyfrif Dysgu Personol (CDP)

Manteisiwch ar ein cyrsiau AM DDIM a HYBLYG ar draws ystod o feysydd sector allweddol.

Os ydych chi dros 19, mewn swydd y ennill llai na **£29,534** y flwyddyn ac eisiau cymryd y cam nesaf i yrfa wych, efallai mai **Cyfrif Dysgu Personol** yw'r union beth rydych chi'n chwilio amdano.

Beth yw cyfrif dysgu personol?

Mae Cyfrifon Dysgu Personol yn darparu model hawl dysgu hyblyg wedi'i ariannu'n llawn i gefnogi unigolion cyflogedig sy'n ennill llai na 29K yn ogystal â'r rhai sydd ar ffyrlo neu y mae eu swyddi mewn perygl, i ennill y sgiliau cywir i naill ai newid gyrfa neu symud ymlaen mewn cyflogaeth ar lefel uwch. Mae'r cyrsiau wedi'u cynllunio'n benodol i fynd i'r afael â hyfforddiant galwedigaethol mewn sectorau lle mae prinder sgiliau er mwyn sicrhau bod anghenion yr economi yn y dyfodol yn cael eu diwallu.

Pwy sy'n gymwys?

Rhaid i unigolion:

- › Byw yng Nghymru
- › Eisiau ennill sgiliau/cymwysterau mewn sectorau blaenoriaeth
- › Bod yn 19 oed neu drosodd

Yn ogystal, rhaid i Unigolion fodloni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

- › Yn gyflogedig (gan gynnwys hunangyflogedig) ac yn ennill llai na'r incwm canolrifol (£29,534), neu
- › Gweithwyr ar gcontractau dim oriau, neu
- › Staff asiantaeth, neu
- › Mewn perygl o golli gwaith, neu
- › Troseddwyd ar ryddhad dydd
- › Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd gofawr amser llawn (â thâl neu ddi-dâl) yn cael cynnig darpariaeth a ariennir gan CDP lle mae lle ar gyrsiau presennol (hy mewnlenwi)

Sut bydd CDP o fudd i mi?

- › Gwella rhagolygon - rhoi'r sgiliau i chi gadw neu sicrhau swydd
- › Eich helpu i symud ymlaen i gam nesaf eich gyrfa
- › Eich helpu i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnoch i gefnogi newid gyrfa

Eisiau gwneud cais am Gyfrif Dysgu Personol? Neu dal yn ansicr a ydych yn gymwys? Ewch i'n gwefan a chyflwyno mynegiant o ddiddordeb. Sylwch, gall cymhwysedd newid.

Astudiaethau Achos

LEE CLARKE

Daeth Lee Clarke atom i ddilyn cwrs hyfforddi a heb gael profiad blaenorol ac nid oedd erioed wedi bod ar safle adeiladu o'r blaen. Roedd Lee yn gweithio mewn swydd ffatri, nad oedd yn ei fwynhau ac eisiau darganfod ffordd allan o newid llwybrau gyrfa ei hun.

Roedd Lee yn ffynnu ar y cwrs ac fe ddaeth yn amlwg ei fod yn codi'r wybodaeth yn gyflym iawn ac roedd yn awyddus i ddysgu cymaint â phosib.

Ar ôl y cwrs fe'i rhoddwyd mewn cysylltiad â rhai cwmnïau adeiladu a llwyddodd sicrhau gwaith ar gcontract mawr (adeiladu Blaenau'r Cymoedd) gyda Aberdare Construction lle mae'n ffynnu ac ennill mwy o gyflog mewn swydd lle mae'n teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi.

Mae fforman Lee wedi datgan pa mor dda y mae'n ei wneud a manteision hyfforddiant i uwchsgilio sy gan unigolion a safon y gwaith sy'n cael ei wneud.



Y Camau Nesaf

Cam 1 - Darganfod y cwrs cywir i chi

Edrychwch ar ein hystod eang o gyrsiâu a meysydd pwnc sydd ar gael yn y coleg a darganfyddwch gymaint ag y gallwch amdanyn nhw trwy:

- Ein prospectws
- Gwefan – www.merthyr.ac.uk
- Ymweld â nosweithiau agored
- Digwyddiadau gwybodaeth yn yr ysgol
- Cynghorydd Gyrfaoedd
- Ffoniwch un o'n tîm Derbyniadau ar 01685 726012
- E-bostiwch admissions@merthyr.ac.uk

Cam 2 - Gwneud cais

Ewch draw i'n gwefan – www.merthyr.ac.uk a dewiswch y cwrs y mae gennych ddiddordeb ynddo ac yna cliciwch ar y botwm Ymgeisiwch Nawr. Os ydych chi'n gwneud cais am Safon Uwch, does ond angen i chi glicio ar eich dewis cyntaf ac yna bydd yn rhoi'r opsiwn i chi ychwanegu gweddill eich cyrsiau ar ddiwedd eich proses ymgeisio.

Cam 3 - Cyfweliad ac Asesiad WEST

- Fe'ch gwahoddir i gael cyfweliad i drafod pa gwrs yr ydych fwyaf addas ar ei gyfer. Byddwn hefyd yn gofyn i chi gwblhau asesiad cychwynnol ar gyfer rhifedd a llythrennedd.

Cam 4 - Eich cynnig o le ar gwrs

- Byddwch yn derbyn e-bost, neges destun neu lythyr yn cynnig lle i chi ar eich dewis gwrs(cyrsiau) neu'r cyfle i drafod opsiynau eraill gyda'n tîm Derbyniadau. Byddwn yn gofyn i chi gadarnhau eich bod yn derbyn y cynnig trwy e-bost neu dros y ffôn.

Cam 5 - Ymrestru yn y Coleg

Anfonir pecyn croeso atoch chi a manylion ynghylch sut i ymrestru yn y coleg. Bydd ein tîm cyllid yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i wneud cais am unrhyw grantiau ychwanegol i'ch cefnogi yn ystod eich astudiaethau.

Cymorth Dysgu Ychwanegol

Yn ystod y broses ymgeisio, cewch eich annog i ddatgelu unrhyw Anghenion Dysgu Ychwanegol a/neu anableddau fel y gallwn gynnig cymorth effeithiol. Gall cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol y Coleg (ALNCo) ddarparu cyngor a chymorth i ddysgwyr, rhieni, gofawyr/gwarcheidwaid, a staff.

Unwaith y bydd cynnig wedi'i wneud a/neu wedi'i dderbyn bydd y coleg yn canfod unrhyw gymorth dysgu sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd fel y gall y coleg baratoi cefnogaeth cyn i chi gael ei ymrestru.

Bydd yr ALNCo yn asesu eich anghenion cefnogaeth ar gyfer y cyfweliad ac ar y rhaglen. Bydd datgeliadau a wnaethoch ar eich cais, yn y cyfweliad neu ar adeg ymrestru, i gyd yn cael eu cyfeirio at yr ALNCo.

Gellir gofyn am gyfweliad cyfrinachol os hoffech drafod unrhyw Anghenion Dysgu Ychwanegol a/neu anableddau. Gallwch ddewis dod ag eiriolwr i'r cyfarfod os hoffech wneud hynny.

Cysylltwch â:

Rhian Francis

Ffôn: **01685 726029**

E-bost: rfrancis@merthyr.ac.uk